

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

2020/21



sirgar.llyw.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Trosolwg o Flwyddyn Ryfeddol.....	5
Darpariaeth Gofal Uniongyrchol	19
Cwynion a Chanmoliaeth.....	22
Y Gweithlu	24
Casgliad a'r Camau Nesaf.....	26
Strwythur Rheoli'r Adran.....	29
Atodiad 1 – Hysbysiad Statudol Mawrth 2020	30
Hysbysiad Statudol Mehefin 2020	30
Atodiad 2 – Gwiriad Sicrwydd AGC Chwefror 2021.....	35
Atodiad 3 – Adolygiad Cartrefi Gofal.....	43

Dyddiadau cyfarfodydd Gwleidyddol

Y Tîm Rheoli Adrannol	15 Mehefin
Y Tîm Rheoli Corfforaethol	17 Mehefin
Rhag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol	28 Mehefin
Craffu	7 Gorffennaf Gofal Cymdeithasol a Thai 8 Gorffennaf Addysg a Phlant
Bwrdd Gweithredol	26 Gorffennaf
Cyngor Sir	15 Medi



Dyma fy wythfed adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mai dim ond rhan o'm rôl gorfforaethol yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae rheidrwydd statudol arnaf i adrodd yn flynyddol ar swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Mae'r Hysbysiad Statudol y cyflwynais y llynedd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn. Cafodd yr Hysbysiad hwn ei gyflwyno dan y Cod Ymarfer yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, lle mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i roi gwybod am yr heriau, y

risgiau a'r amgylchiadau lle mae materion staff yn effeithio ar ein gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol.

Nid oes dim amheuaeth bod y flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn eithriadol o anodd. Mae COVID-19 wedi profi bob elfen o'n sefydliad a'n gallu i gyflawni ein swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. Drwy gydol y pandemig, ein blaenoriaeth oedd amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned, yr henoed a phobl anabl y mae eu hiechyd a'u bywydau wedi bod mewn cymaint o berygl oherwydd Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, nid yw ein timau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant wedi wynebu'r fath heriau o'r blaen ac mae'r galw arnynt gan ein cymunedau yn fwy nag erioed. Bu'n flwyddyn lle mae cymdeithas gyfan wedi cydnabod y rôl ganolog y mae swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chwarae yn ein bywydau ni i gyd a phwysigrwydd y gwasanaethau hyn o ran cadw plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel. Gall y Cyngor fod yn falch o rôl ei staff wrth gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed.

Ar ddechrau'r flwyddyn nid oedd y wlad yn barod ar gyfer y pandemig o gwbl a hynny ym mhob agwedd. Mae'n hawdd anghofio'r argyfwng ym mis Mawrth a mis Ebrill y llynedd pan wrthododd cyngor ieuchyd cyhoeddus gydnabod yr angen am Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn y sector gofal; pan gafodd pobl eu rhyddhau'n gyflym o'r ysbyty i gartrefi nyrsio nad oedd yn barod o gwbl i reoli achosion o COVID-19 a lle'r oedd cyfarpar diogelu sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen yn cael ei arwerthu'n genedlaethol i'r cynigydd uchaf gan ddosbarthwyr diegwyddor. Bryd hynny, nid oedd sôn am raglenni brechu ac roedd pryder yn rhywbeth a wynebai ein staff yn ddyddiol. Roeddem i gyd yn rhwystredig ynglŷn ag arafwch newid y canllawiau PPE ar gyfer staff gofal cymdeithasol (gweler fy hysbysiad statudol tudalen 30). O ganlyniad, nid oeddem bob amser, hyd yn oed erbyn mis Mehefin 2020, wedi gallu diogelu'r staff gofal cymdeithasol i'r graddau oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni. Roedd cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol y Cyngor ac ADSS Cymru wrth ddadlau dros weithredu'n genedlaethol yn hanfodol i sicrhau bod y canllawiau'n newid.

Mae ein partneriaeth â'r gwasanaeth ieuchyd wedi cryfhau drwy gydol y pandemig gyda'r awdurdod yn arwain ar y gwaith o greu 3 ysbyty maes yn y sir ac mae ein strwythur integredig wedi ychwanegu gwerth sylweddol o ran sicrhau bod dull cydgysylltiedig ar waith. Roedd rôl staff ieuchyd clinigol allweddol o ran cefnogi'r sector gofal yn werthfawr dros ben. Mae angen adolygu ac ystyried yn lleol ac yn genedlaethol y defnydd o gyfarwyddiadau 'peidiwch â dadebru' wrth ymdrin â'r henoed sydd mewn gofal, ac mae angen meddwl ai'r broses a ddefnyddiwyd yw'r un yr hoffem ei chael yn y dyfodol.

Fel Cyfarwyddwr, rydych chi wir yn darganfod cryfder a gwerthoedd eich tîm a'ch sefydliad pan fyddwch yn wynebu adfyd. Am 6 mis, roedd fy nhîm yn cael cyfarfod 7 diwrnod yr wythnos i ddatrys problemau, rheoli risg, a chefnogi'r sector gofal yn ystod y cyfnodau mwyaf anodd y mae erioed wedi'u hwynebu. Roedd y gefnogaeth gadarn yn wleidyddol ac yn gorfforaethol wedi dangos gwerthoedd y sefydliad, lle mai'r brif flaenoriaeth oedd gwneud beth bynnag oedd yn ein gallu i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed orau. Gwnaethpwyd gwaith gwyach a chadarnhawyd hyn gan yr Arolygiaeth yn gynharach eleni:

"Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gan bobl lais, bod eu dewisiadau'n cael eu parchu, a bod pobl yn cyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt yn rheolaidd. Mae gan arweinwyr weledigaeth amlwg o ran ymarfer rheng flaen, a chynlluniau clir sydd wedi arwain at ymarfer creadigol."

"Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021"

Yn ystod yr ail don ym mis Rhagfyr, bu i'r cynnydd cyflym yn nifer yr achosion heintus olygu nad oedd sawl un o'n cartrefi gofal yn y sector preifat wedi gallu ymdopi. Roedd y cartrefi hyn mewn sefyllfa lle nad oedd ganddynt unrhyw staff na rheolwyr ac nid oedd gan breswylwyr sâl a bregus unrhyw un i ofalu amdanynt. Yn yr amgylchiadau hyn, roeddwn bob amser yn teimlo'n wylaidd wrth weld ein staff a'n rheolwyr o'n gwasanaeth mewnol yn mynd ati heb betruso i weithio sifftiau ychwanegol mewn amgylcheddau anghyfarwydd a pheryglus i barhau i ofalu am breswylwyr. Yn ogystal, roedd staff corfforaethol a hamdden wedi gwirfoddoli i lenwi bylchau er bod ganddynt bob hawl i aros gartref. Gan mai dim ond hyn a hyn o aelodau'r teulu oedd yn cael mynd i mewn i gartrefi gofal a bod y staff gofal dan bwysau, roedd yn rhaid i rai o'r staff hyn ddarllen i'r henoed a gofalu am yr henoed a oedd yn fregus, yn agored i niwed ac mewn llawer o achosion yn sâl gyda COVID 19. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i'r staff hyn.

A ninnau yn oes y cyfryngau cymdeithasol, mae'n hawdd bod yn sinigaidd am 'y Cyngor' a Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, wrth edrych yn ôl ar noswyl Nadolig 2020 pan ges i'r alwad bod cartref gofal mewn sefyllfa enbyd gan fod y tîm cyfan o staff yn absennol oherwydd COVID-19, y 'Cyngor' a Llywodraeth Leol gyda'n staff anhygoel oedd wedi camu i'r adwy yn yr amgylchiadau anoddaf. Yn ystod y cyfnod hwn, nid wyf erioed wedi bod yn fwy balch o'r sector gofal a Llywodraeth Leol.

Mae gwaith arbennig wedi cael ei wneud yn genedlaethol ac yn lleol i gyrraedd lle rydym ni heddiw. Erbyn hyn mae gennym hen ddigon o gyfarpar diogelu, sy'n cael ei ddarparu am ddim gan y llywodraeth i'r sector gofal cyfan, rydym yn elwa o'r rhaglen frechu fwyaf llwyddiannus yn Ewrop, ac rydym yn dal i gael cyllid sylweddol ar gyfer sector gofal sydd dan bwysau. Er bod yr effaith lawn ar lechyd Meddwl ein plant a'n oedolion sy'n agored i niwed yn dal i gael ei hasesu'n llawn, mae'r cyllid ychwanegol a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn dystiolaeth bellach bod cefnogi ac amddiffyn pobl agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

Wrth wneud datganiadau am gyflwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y sir, rwyf bob amser yn ceisio rhannu hyn yn dair rhan sef ein dyfarniad mewnol, data perfformiad a gwerthusiadau annibynnol allanol. I'r perwyl hwn, gwnaethom gomisiynu gwerthusiad allanol annibynnol o'n cymorth i gartrefi gofal. Crynhoir y gwerthusiad allanol hwn yn Atodiad 3. Yn

ogystal, lluniodd Arolygiaeth Gofal Cymru werthusiad o'n holl swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol drwy arolygiad ym mis Chwefror. Mae hwn hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 2. Mae'r safbwyntiau allanol hyn yn fy ngalluogi i gael hyder gwirioneddol yn y datganiadau cadarnhaol rwy'n eu gwneud yn yr adroddiad hwn.

Wrth gwrs, mae llawer o waith i'w wneud yn awr wrth i ni adfer yn sgil y pandemig, gwerthuso'r effaith ar wasanaethau ac wynebu'r materion hynny sydd, yn anochel, wedi'u gohirio. Mae'n sicr y bydd pwysau cyllidebol yn chwarae rhan wrth i nifer y bobl hyn barhau i gynyddu ac mae lechyd Meddwl yn arbennig yn wynebu pwysau cynyddol. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi dangos i ni fod ein staff a'r sefydliad yn fwy gwydn nag y gallem fod wedi'i wybod, ac mae hyn yn rhoi i mi achos da dros fod yn obeithiol yn y dyfodol.

Jake Morgan, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Trosolwg o Flwyddyn Ryfeddol

Ffordd syml o edrych ar effaith COVID-19 ar Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw ei hystyried mewn pedwar cam:

Roedd **cam un** o fis Mawrth i fis Mai 2020 yn gyfnod o risg uchel, lle roedd pryder mawr ynghylch methu diogelu preswylwyr a staff mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio yn ddigonol, ac ynghylch diffyg cyfarpar diogelu (gweler yr adroddiad statudol yn Atodiadau 1 a 2). Roedd hwn yn gyfnod o reoli mewn argyfwng yn lleol ac yn genedlaethol, wrth i ni ddelio â'r diffyg paratoi yn gyffredinol ar raddfa genedlaethol ar gyfer y math hwn o bandemig.

Yn ystod **cam dau** o fis Mai i fis Hydref 2020, bu i ni sefydlu gwasanaethau ataliol, sefydlu systemau gwaith diogel, dosbarthu PPE, cyflwyno systemau profi a systemau monitro ac olrhain, sicrhau bod pobl yn gallu gweithio'n ystwyth i raddau helaeth, monitro plant agored i niwed, a sefydlu systemau ar gyfer rheoli heintiau.

Yn ystod **cam tri** o fis Tachwedd i fis Ionawr cafodd ail don COVID-19 effaith ofnadwy ar rai o'n cartrefi gofal, lle gwelwyd absenoldebau ymysg y staff yn cynyddu gan fod mwy yn cael eu profi. O ganlyniad, roedd sawl cartref gofal yn y sir methu ymdopi. Roedd cyflymdra'r cynnydd yn y nifer oedd yn cael eu heintio ym mis Rhagfyr yn rhyfeddol. Roedd y cyfnod hwn yn heriol, er iddo gael ei reoli'n dda iawn gan ein timau, a daliodd ein staff ati i weithio'n ddiwyd i gadw pobl yn ddiogel, er bod gorblinder yn eu llethu. Erbyn diwedd y cam hwn, roedd y gwaith o gyflwyno brechiadau Covid wedi dechrau, ac roedd staff gofal ymhlith y cyntaf yn y sir i gael eu brechiadau.

Roedd **cam pedwar** o fis Chwefror i ddiwedd mis Mawrth yn gyfnod o adfer wedi'r ail don ac roedd heintiau'n isel, cartrefi gofal yn gweithredu'n effeithiol, a nifer o adolygiadau ac arolygiadau allanol wedi'u cwblhau i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'n bod ni'n barod pe bai achosion pellach. Roedd y rhaglen frechu yn effeithiol ac roedd 97.7% o weithwyr gofal wedi'u brechu a 96.4% o breswylwyr mewn gofal wedi'u brechu (adeg llunio'r adroddiad hwn). Dengys yr holl arwyddion fod y rhaglen hon yn effeithiol o ran diogelu'r preswylwyr yn y sir sydd fwyaf agored i niwed.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn hollbwysig ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a chyflawni ein cyfrifoldebau statudol er mwyn cefnogi'r rhai oedd â'r angen mwyaf. O bryd i'w gilydd gwnaethom benderfyniadau anodd fel bod ein hadnoddau'n cael eu blaenoriaethu i'r gwasanaethau mwyaf critigol, yn ôl yr angen. Trwy gynlluniau argyfwng ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cyngor a'r rhanbarth, datblygwyd ymateb wedi'i gydlynw ledled gwasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynwyd. Cefnogwyd yr ymateb hwn gan bartneriaeth gref â'r Bwrdd Iechyd, er mwyn cadw'r sawl rydym yn darparu gofal a chymorth iddynt mor ddiogel â phosibl.

Cafodd staff o wahanol wasanaethau eu hadleoli i'r mannau lle roedd yr angen ar ei fwyaf, ac rydym yn parhau i weithio'n unol â chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag arferion gweithio diogel. Rydym wedi cael ymateb syfrdanol gan y gymuned, wrth i unigolion, grwpiau a busnesau ddod at ei gilydd i gefnogi ffrindiau, cymdogion a dieithriaid. Ein gobaith yw gweld y cysylltiadau hyn yn parhau pan fydd y pandemig wedi dod i ben, gan roi cefnogaeth i'r rhai mewn angen o hyd.

Rydym wedi pennu **cyllideb ar gyfer 2021/22** sy'n cydbwysu ein hadnoddau â'r galw. Fodd bynnag, mae'r galw ar draws y Gwasanaethau i Blant ac Oedolion yn anwadal ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am ofal cartref ers mis Mawrth. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr ansicrwydd ariannol rydym yn ei wynebu. Mae cronfa wrth gefn a sefydlwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gam synhwyrol dan yr amgylchiadau.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu cyllidebau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a buddsoddi yn ein gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau uchel eu safon, y mae pobl yn ganolog i'w gofal a'u cymorth.

Rydym wedi cael cymorth ariannol sylweddol gan Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru i helpu i wneud iawn am rai o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Covid. Rydym wedi hawlio cyfanswm o ychydig dros £9 miliwn hyd yn hyn. Mae'n anodd dweud ar hyn o bryd sut bydd yr argyfwng hwn yn effeithio ar y galw yn yr hirdymor, ac, yn sgîl hynny, y gwariant, ond byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus.

Rydym wedi gweld gostyngiad cyffredinol yn nifer y lleoliadau preswyl a nyrsio a ariennir ar gyfer pobl hŷn, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyllideb. Wedi dweud hynny, nid yw wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y cynnydd yn y galw am ofal cartref, taliadau uniongyrchol a gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r **gwasanaethau i blant** wedi parhau i weithredu'n effeithiol yn ystod Pandemig Covid-19 a threfniadau gweithio'r cyfyngiadau symud. Mae darparu'r gwasanaethau wedi cael blaenoriaeth yn unol â'r model y cytunwyd arno'n rhanbarthol. Trwy wneud hyn, rydym wedi sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu diogelu, gan sicrhau hefyd bod ein staff a'r teuluoedd rydym yn ymweld â nhw yn aros yn ddiogel drwy gadw pellter cymdeithasol. Mae'r pandemig wedi amlygu manteision a chyfleoedd gweithio'n ddigidol, gan fod mwy o gyswllt wedi bod gyda llawer o'n plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, bydd dychwelyd i sefyllfa lle mae mwy o

gyswllt wyneb yn wyneb yn hanfodol i'r gwasanaethau i blant wrth edrych tua'r dyfodol.

Yn achos pobl ifanc sy'n gadael gofal, yn enwedig y rheiny nad ydynt efallai wedi bod mewn cysylltiad yn rheolaidd o'r blaen, mae potensial aruthrol o ran cynyddu ymgysylltiad, datblygu gwell dealltwriaeth, a gwella canlyniadau. Er bod y ffocws wedi bod ar y pandemig, mae hefyd yn beth da ystyried y gwaith da mae ein gwasanaeth wedi'i wneud i gefnogi plant a theuluoedd yn ystod y flwyddyn hon.

Mae gallu'r Cyngor i gynnal a hyd yn oed leihau nifer ein plant sy'n derbyn gofal drwy arfer da, buddsoddi mewn atal, a rheoli effeithiol yn y tymor hir, yn faes sy'n cael sylw cadarnhaol yn genedlaethol.

“Yn y gwasanaethau i blant, trefnwyd cyfarfodydd pod a chawsant eu canmol yn fawr gan yr holl staff fel dull effeithiol a chefnogol iddyn nhw eu hunain a'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cyfuno dull systemig â dull seiliedig ar gryfderau o werthuso gwaith gyda theuluoedd”

“Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021”

O fewn lechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu rydym wedi gweld cynnydd mewn lleoliadau preswyl a phecynnau cymunedol cost uchel, gan i'r gwaith o leoli pobl mewn lleoliadau amgen gael ei atal am chwe mis cyntaf y pandemig. Mae effaith y pandemig ar ieuchyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, diogelu, a'r galw am wasanaethau yn debygol o fod yn sylweddol ac rydym wedi paratoi ar gyfer hyn wrth bennu ein cyllideb ar gyfer 2021/2022.

O ran **cefnogi oedolion a phobl hŷn**, rydym wedi parhau i gadw at y drefn arferol cyn belled ag y bo modd. Rydym wedi parhau i gefnogi pobl sydd angen ein cymorth yn y gymuned ac er mwyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Rydym wedi parhau i gynnal Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac wedi cynnal asesiadau gofal cymdeithasol lle bo'r angen.

Mae'n anochel ein bod wedi gorfod newid y ffordd rydym yn gwneud pethau, a lle bynnag y bo modd rydym wedi ceisio cefnogi pobl yn rhithiol wrth ddarparu gwybodaeth a chynghor neu wrth gynnal asesiadau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi parhau i ymweld â phobl gartref pan fo angen, ar ôl gwneud asesiad risg, er mwyn sicrhau bod ein hasesiadau'n drylwyr i weld pa gymorth y gallem ei ddarparu.

Er gwaethaf yr holl heriau, mae cyflenwad digonol o ofal preswyl a chartref gyda ni yn y sir. Mae ardaloedd gwledig yn parhau i fod yn her a bydd fframwaith comisiynu newydd yn ceisio mynd i'r afael â bylchau yn y flwyddyn nesaf.

Ar ddechrau'r pandemig, yn unol â chynghor y llywodraeth a natur fregus iawn ein grwpiau cleientiaid o ran Covid, bu'n rhaid i ni gau'r rhan fwyaf o'n **Gwasanaethau Dydd** ar unwaith, a rhoi'r gorau am y tro i'r gofal seibiant oedd wedi'i drefnu ar gyfer

cartrefi gofal. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio edrych ar ffyrdd arloesol o barhau i helpu'r rheiny rydym yn eu cefnogi i gyrraedd eu deilliannau a darparu rhywfaint o ofal seibiant i unigolion a theuluoedd.

O ran **Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn**, gwnaethom ymgynghori â'r rheiny oedd yn defnyddio'r gwasanaethau dydd o'r blaen (a'u teuluoedd) ym mis Tachwedd y llynedd, ynghylch cynnig i ddarparu cymorth ar ffurf arall tra bo'r gwasanaethau dydd dal ar gau. Mae'r model hwn yn cynnwys cymorth 1 i 1 gartref, yn ogystal â gwell cysylltiad digidol lle bo hynny'n briodol. Mae'n bosibl trefnu gofal seibiant mewn argyfwng o hyd hefyd, a hynny mewn nifer o gartrefi gofal ledled y sir ar sail asesiad risg, yn amodol ar brawf Covid-19 negyddol ac ynysu am 14 diwrnod ar ôl cyrraedd y cartref gofal. Adeg ysgrifennu hwn, disgwylir canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch symud pobl i gartrefi gofal, a allai wneud gofal seibiant mewn gwelyau yn fwy realistig. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i wasanaethau dydd ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion oedolion hŷn sy'n agored iawn i niwed, y mae angen seibiant ar eu gofalwyr. I wneud hyn bydd yn rhaid ailwampio ein gwasanaethau dydd i raddau helaeth.

Yn y **Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl**, er bod rhai adeiladau wedi'u cau, rydym wedi parhau i ddarparu gofal i'n pobl fwyaf agored i niwed, ac mewn rhai achosion rydym wedi llwyddo i ddarparu cymorth mewn adeiladau yn dilyn asesiadau risg. Rydym hefyd wedi cynnig cymorth gartref ac ystod o weithgareddau rhithwir ar-lein sy'n para'n boblogaidd gyda'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u gofalwyr. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn cynnwys sesiynau ymarfer corff, coginio, gwaith coed a chwisiau. Hefyd mae pecynnau gweithgareddau crefft wedi'u dosbarthu i gartrefi unigol i'w galluogi i ymuno yn yr arddangosiadau rhithwir.

Yn hydref 2020, ailagorodd rhai o'n hadeiladau ac rydym yn graddol ddarparu ar gyfer mwy o niferoedd, gan flaenoriaethu'r unigolion a'r teuluoedd sy'n gweld pethau'n anodd. Fodd bynnag, bydd hyn yn digwydd ar raddfa lai o lawer, er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Ni fydd llawer o wasanaethau'n gweithredu fel o'r blaen. Ni fyddant yn gallu cynnig yr ystod o weithgareddau nac yn gallu cefnogi cynifer o bobl ag o'r blaen, gan mai ein blaenoriaeth yw cadw pawb yn ddiogel.

Cafodd adolygiad o'r Cynllun Cysylltu Bywydau rhanbarthol ei wneud yn 2019, gyda'r bwriad o ddiwygio'r model a'r strwythur er cynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad a gafodd ei ohirio yn ystod y pandemig bellach yn cael ei gynnal a bydd model newydd yn cael ei roi ar waith yn dilyn hyn.

Sefydlwyd cam cyntaf y model newydd ar gyfer anabledd hefyd yn ystod 2020 gan ddechrau gyda'r gwasanaeth 0 i 25 oed. Yr adborth cychwynnol gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol yw bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol. Bydd Cam 2 yn cael ei weithredu eleni.

Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi bod yn gyfnod heriol iawn i ofalwyr sydd wedi bod yn ymdopi â llai o gymorth a seibiant. Drwy drefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, rydym wedi parhau i addasu ein cynnig i ofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn dal i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Mae'r timau Gwaith Cymdeithasol a staff y

gwasanaethau dydd wedi cadw mewn cysylltiad â gofalwyr ac wedi darparu cymorth pan fo angen. Mae llawer o'n staff naill ai wedi cyflawni neu'n ymgymryd â Gwobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, sy'n gydnabyddiaeth o'r cymorth a ddarperir i ofalwyr. Nodwyd Hyrwyddwyr Gofalwyr gan bob tîm Gwaith Cymdeithasol.

Mae'r pandemig yn her i bawb, ond mae'r effaith ar iechyd meddwl a llesiant llawer o bobl yng Nghymru yn sylweddol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r cyswllt â thimau iechyd meddwl hefyd wedi cynyddu 136%, o 131 rhwng Ebrill a Medi 2019 i 301 ar gyfer yr un cyfnod eleni. Mae gwaith y gwasanaeth Ymarferydd Iechyd Meddwl Uwch (AMHP) wedi parhau fel yr arfer, wrth i'r gwasanaeth orfod dal ati i gyflawni ei ddyletswyddau statudol drwy gydol y pandemig, a hynny'n aml mewn sefyllfaoedd risg uchel.


Ers mis Mawrth mae'r holl Fforymau a Rhwydweithiau Iechyd Meddwl wedi gweld cynnydd yn y galw ac mewn lefelau gorbryder ar draws Gorllewin Cymru a Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n cysylltu â nhw i gael cymorth ar gyfer hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta hefyd.

Mae'r effaith ar wasanaethau iechyd meddwl yn debygol o fod yn sylweddol. Wrth gynllunio ar gyfer hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnoddau twf sylweddol i fynd i'r afael â hyn, a gaiff eu defnyddio i recriwtio rhagor o staff gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar ddau faes penodol; ymyrraeth gynnar ac atal ac ymateb mwy cadarn ac amserol mewn argyfwng. Yn ystod 2020, rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu mentrau yn hyn o beth gan ddatblygu Un Pwynt Mynediad a gwasanaeth ymateb mewn argyfwng 24/7. Mae cynnydd wedi bod hefyd yng ngwaith y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac yng nghymhlethdod yr achosion, gan fod hunanynysu a chyfyngiadau symud yn cael effaith ar fywydau pobl sy'n agored i niwed.

Diogelu Oedolion

Mewn perthynas â Diogelu Oedolion, mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac is-grwpiau cysylltiedig wedi parhau i gwrdd yn rhithiol. Roeddem yn rhan o grŵp ymateb Rhanbarthol ac Amlasiantaethol i Covid a gyfarfu'n wythnosol i gael sicrwydd ynghylch ymatebion diogelu yn ystod y pandemig. Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y strategaeth wedi gwella. Mae'r trefniadau MAPPA, MARAC a VAWDASV hefyd wedi parhau. Rydym wedi parhau i weithio o fewn y Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Cymru Gyfan newydd, ac mae Sir Gaerfyrddin wedi arwain ar sawl datblygiad ar draws y rhanbarth gan gynnwys datblygu dogfen a hyfforddiant *Covid Threshold*. Rydym bellach wedi paratoi'n dda ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn 2022.

Bu cynnydd bach mewn gweithgarwch diogelu a chynnydd o ran cymhlethdod yr atgyfeiriadau. Rydym bellach yn gweld tua 100 i 120 o atgyfeiriadau y mis.




Mae nifer yr adroddiadau diogelu oedolion a gafwyd yn ystod 2020/21 yn dangos cydberthynas uniongyrchol â chyfnodau'r cyfyngiadau COVID-19 yng Nghymru. Yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau llym yn Ch1 a Ch3, cafwyd llai o adroddiadau diogelu, fwy na thebyg oherwydd bod llai o gyfleoedd i ymweld â defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb a'r mynediad cyfyngedig i leoliadau gwasanaeth.

Roedd atebion a gyd-luniwyd yn amlwg ac roedd canlyniadau cadarnhaol i bobl oedd yn destun ymyriadau wedi'u diogelu. Ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol, dadansoddiad da o risg, cynlluniau amddiffyn ar waith, a chymau'n cael eu cymryd pan fo angen. Dywedodd darparwyr a phartneriaid eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm diogelu oedolion, a chafodd eu parodrwydd i gynnig cyngor, arweiniad a chymorth gyda hyfforddiant ei gydnabod.

“Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021”

Cytunwyd ar ddull rhanbarthol cadarn o reoli awdurdodiadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid newydd a phresennol, gan ein bod wedi gorfod addasu ein harferion pan nad ydym wedi gallu ymweld â chartrefi gofal. Mae'r dull hwn yn sicrhau y cedwir at egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru.



Mae nifer y ceisiadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi bod yn gyson yn ystod y 12 mis diwethaf. Oherwydd y cyfyngiadau o ran ymweld â chartrefi gofal, mae'r asesiadau wedi'u cynnal o bell yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac arfer da. Caiff asesiadau eu blaenoriaethu yn ôl pa mor frys ydynt ac mae proses archwilio bendant ar waith i sicrhau y cedwir at egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005).

Galwad Seraphim

Rydym wedi datblygu dyfais a dangosfwrdd arloesol o'r enw *trueCall* sy'n atal a monitro galwadau niwsans. Mae'n cysylltu data atal galwadau â phroffiliau risg defnyddwyr i greu rhybudd pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn agored i nifer fawr o ddulliau o dwyllo dros y ffôn a/neu'n dangos ymddygiadau sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o ddioddef yn sgil twyll dros y ffôn.

Diben y system rybuddio yw diogelu defnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed a chychwyn galwad lles a/neu ymweliad gan swyddogion lleol ac amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth rhag dioddef yn sgil twyll. Mae natur *trueCall* yn golygu y gellir cyflawni llawer o ymyriadau o bell. Mae'r fath warchodaeth a goruchwyliaeth wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod y pandemig. Ers mis Ebrill 2020, mae unedau *trueCall* a osodwyd gan yr awdurdod wedi atal **16277** o alwadau niwsans a wnaed i bobl sy'n agored i niwed yn y sir. Yn seiliedig ar wybodaeth genedlaethol, nodwyd mai sgamiau oedd **4883** o'r galwadau hyn.

Llesiant Delta


Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi parhau i weithio gyda Llesiant Delta, sef ei gwmni masnachu Gofal trwy Gymorth Technoleg (TEC), i ddatblygu Strategaeth Atal TEC ar gyfer y rhanbarth, ac mae prosiect CONNECT yn benodol wedi bod yn arbennig. Mae'r rhaglen yn cyfuno galwadau tele-fonitro a llesiant integredig rhagweithiol â chymorth ymateb cyflym yn y gymuned.

Yn y gwasanaethau i oedolion, mae prosiect Delta / Connect wedi llwyddo i hyrwyddo atal ac ymyrraeth gynnar ac i leihau'r angen am gymorth cynyddol neu ffurfiol gan asiantaethau statudol. Gwelsom dystiolaeth o ddefnydd gwell o dechnoleg i gefnogi diogelwch pobl yn ogystal â lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.

“Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021”

Drwy gydol pandemig Covid, mae Llesiant Delta wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod trigolion sy'n eithriadol o agored i niwed, a oedd yn gwarchod ar draws y sir, yn cael eu cefnogi'n briodol. Yn ystod yr argyfwng cenedlaethol, bu'r staff yn gweithio 24/7 i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned leol.

Gwnaethpwyd oddeutu 8,500 o alwadau i drigolion yn Sir Gaerfyrddin a oedd wedi cael llythrau ynghylch gwarchod gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod ganddynt bopeth oedd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn. Drwy'r galwadau hyn gallai'r tîm wneud yn siŵr bod yr unigolyn yn iawn, gan roi tawelwch meddwl i anwyliad a'u teuluoedd, ac, yn hollbwysig, sicrhau bod digon o help a chefnogaeth o'u cwrdd yn ystod y cyfnod gwarchod, a hefyd atal unigrwydd ac arwahanrwydd.



Mae cyfarpar Gofal trwy Gymorth Technoleg yn darparu cymorth pob awr o'r dydd a'r nos os oes angen, yn ogystal â pharseli bwyd hanfodol neu help wrth siopa am hanfodion bywyd. Roedd y tîm hefyd yn gwirio bod pobl yn derbyn eu presgripsiynau meddyginaeth, ac os na allai'r fferyllfeydd ddosbarthu, roeddem yn trefnu cymorth ar gyfer hyn hefyd. Roedd tîm Ymateb Lles Cymunedol Llesiant Delta, fel rhan o'i wasanaeth CONNECT, hefyd wrth law i ymweld â phobl gartref pan oedd angen

datrys unrhyw broblemau ymarferol oedd ganddynt tra oeddent yn gwarchod. Aeth y tîm yr ail filltir ar sawl achlysur i sicrhau bod ein cymunedau mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth hanfodol roedd ei angen arnynt i atal argyfwng posibl rhag digwydd.

Mae'r adborth am y galwadau wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi sicrhau bod unrhyw broblemau posibl yn cael eu nodi a'u cefnogi cyn gynted ag y bo modd, ac roedd llawer wedi dweud bod yr alwad yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Mae'r prosiect yn Sir Gaerfyrddin wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobr Rhagoriaeth Trawsnewid y Sector Cyhoeddus, gan ei fod yn enghraifft o'n huchelgais o weithio ar draws ffiniau'r sector i sicrhau bod dull radical sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei arddel ar gyfer llesiant, gofal a chymorth. Mae'n cynnwys gweithredu model newydd o hunangymorth a gofal rhagweithiol, wedi'i alluogi gan ofal trwy gymorth technoleg, sy'n gwella llesiant unigolion. Yn ei dro mae hynny'n galluogi pobl i aros yn annibynnol am gyfnod hirach, gan leihau'r galw am ofal hirdymor neu ofal aciwt.

Ym mis Mehefin 2021, sefydlwyd Strategaeth Profi, Orlhain, a Diogelu gennym a thîm i wella arolygu iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau effeithiol a helaeth, ac annog a helpu pobl i hunanynysu. Roedd gwaith y tîm Profi, Orlhain a Diogelu yn hanfodol (fel y mae o hyd) o ran helpu i leihau lledaeniad y Coronafeirws drwy nodi cysylltiadau diweddar pobl sydd wedi cael prawf positif a rhoi cyngor iddynt.

Mae cysylltiadau'n cael eu holrhain i gyfyngu ar ledaeniad y feirws yn y gymuned drwy dorri'r cysylltiad wrth drosglwyddo. Mae olrhain cysylltiadau yn dechrau drwy roi gwybod am unrhyw symptomau sydd gennym, wedyn profi achosion posibl, olrhain cysylltiadau'r rhai sydd wedi profi'n gadarnhaol, ac yna amddiffyn ein teuluoedd, ffrindiau a chymunedau drwy hunanynysu. Bydd ymgorffori strwythurau rheoli heintiau yng ngwaith parhaol yr adran yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen.

Y Gwasanaethau Plant

Mae eleni wedi bod hyd yn oed yn fwy heriol oherwydd Covid-19, sydd wedi rhoi pwysau sylweddol ar deuluoedd ac wedi arwain at gynnydd yn y galw am ein gwasanaethau. Eleni gwelwyd cynnydd o 770 yn y Cysylltiadau/Atgyfeiriadau a ddaeth i law'r gwasanaethau statudol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i berfformio'n dda er gwaethaf y pwysau hyn. Yn ystod 2020/21 cwblhawyd 93.6% o'r asesiadau newydd o fewn yr amserlenni statudol.

Rydym yn parhau i ddilyn y canllawiau yn nogfen drothwy ranbarthol CYSUR a'r trefniadau amddiffyn plant amlasiantaethol, gan sicrhau ymyrraeth gynnar a defnyddio gwasanaethau ataliol i leihau'r angen am gyfranogiad statudol.

Mae ethos cymorth i deuluoedd yn rhan annatod o'r awdurdod ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi parhau i ostwng yn araf er gwaethaf Covid-19. Rydym wedi perfformio'n well na'r hyn a ddisgwyliad gan Lywodraeth Cymru, gan fod 15 yn llai o blant yn derbyn gofal o gymharu â'r un adeg y llynedd. Gwnaed gwaith parhaus gan y gwasanaethau ataliol arbenigol megis IFST, Ar Ffiniau Gofal a'r Tîm Ymyriadau Teuluol, a fu'n gweithio ar draws y timau i sicrhau bod cynifer o blant â phosibl yn aros gartref yn ddiogel gyda theuluoedd neu fel arall sicrhau sefydlogrwydd i blant drwy eu cynnal tu allan i'r gwasanaethau statudol drwy hyrwyddo Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) i leihau ymhellach nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Gwelsom fod gwasanaethau fel y tîm Cymorth Iechyd Emosiynol, Ar Ffiniau Gofal a Camau Bach wedi'u cynllunio a'u halinio i ganolbwyntio ar yr un nod. Cofnodwyd deilliannau personol clir ar ffeiliau, a oedd yn arbennig o bwysig mewn sefyllfaoedd cymhleth lle roedd angen cydlynu cymorth i fynd i'r afael ag angen cymwys.

"Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021"

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnal sefydlogrwydd lleoliadau gan gynnig cymorth lleoliad da ar draws y gwasanaeth i gyflawni hyn. Yn ystod 20/21 dim ond 7 o blant (allan o 148) wnaeth symud 3 gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn (4.7%) sy'n is na chyfartaledd Cymru o 9% ac sy'n adlewyrchu'r gwaith rhagorol sy'n digwydd i gefnogi lleoliadau gyda gofalwyr maeth.

Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi aros yn sefydlog ac mae'r cydweithio da â gweithwyr proffesiynol wedi parhau ar ffurf cynadleddau rhithwir. Hefyd mae'r cyfathrebu â theuluoedd wedi bod yn dda er mwyn sicrhau bod problemau diogelu plant yn cael eu rheoli mor ddiogel â phosibl.

Mae'r Tîm Maethu wedi parhau i recriwtio, hyfforddi ac asesu darpar ofalwyr maeth yn ogystal â darparu cymorth parhaus i ofalwyr maeth i'w galluogi i ofalu am ein plant mwyaf agored i niwed mewn modd sy'n diwallu eu hanghenion unigol a'u llesiant emosiynol, a sicrhau lle bynnag y bo modd fod plant yn cael eu paru'n briodol â gofalwyr maeth ac yn aros yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r tîm wedi parhau i weithio ar draws y rhanbarth ar y cyd â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (NFF) ac mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r trefniadau newydd mewn perthynas â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae Ymgyrch Brand newydd Maeth Cymru yn cael ei datblygu a'i chefnogi'n rhanbarthol ac mae'r gwefannau'n cael eu diweddarau i adlewyrchu nid yn unig cadw ein gwefan leol ond dull cenedlaethol a fydd, gobeithio, yn ein helpu i farchnata a gwella recriwtio pobl i faethu yn lleol ac yn genedlaethol. Mae maethu hefyd yn cynnal sesiynau gwybodaeth ar-lein yn rheolaidd.

O ganlyniad i gyfyngiadau Covid, mae asesiadau wedi'u cwblhau gan ddefnyddio cyfuniad o ymweliadau o bell a gwahanol fathau o ymweliadau wyneb yn wyneb. Mae Gweithwyr Cymdeithasol wedi mynd i lawer o ymdrech i sicrhau bod plant yn cael eu gweld a bod digon o wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu ar gyfer asesiadau, er gwaethaf yr heriau o wneud hynny yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r archwiliad misol o asesiadau gan uwch-reolwyr wedi parhau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ddeilliannau, yn dangos tystiolaeth o lais y plentyn ac yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd hyn wedi arwain at drafodaethau gyda gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr ynghylch cryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach.

Yn y gwasanaethau i blant, trefnwyd cyfarfodydd pod a chawsant eu canmol yn fawr gan yr holl staff fel dull effeithiol a chefnogol iddyn nhw eu hunain a'r teuluoedd maen nhw eu cefnogi. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cyfuno dull systemig â dull seiliedig ar gryfderau werthuso gwaith gyda theuluoedd.

"Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021"

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr. Mae lefel yr ymholiadau wedi aros yn uchel ac i ymateb i'r galw mae'r hyfforddiant paratoi gofynnol wedi bod yn digwydd bob 2 fis ynghyd â sesiynau ychwanegol lle bo angen. Mae cynnwys yr hyfforddiant a'r modd caiff ei ddarparu bellach yn gyson ar draws y rhanbarth. Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon am fabwysiadu ac rydym wedi diweddarau ac ail-lansio'r wefan i'w gwneud yn fwy hygyrch i'r rhai sydd â diddordeb mewn mabwysiadu. <https://vimeo.com/479780913>

Mae'r galw am leoliadau mabwysiadu wedi parhau'n uchel eleni. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i roi plant i'w mabwysiadu yn ystod y flwyddyn, er bod cyfyngiadau Covid wedi golygu bod y broses drosglwyddo'n cymryd mwy o amser er mwyn sicrhau y gwneir symudiadau mewn modd sy'n ddiogel i bawb sy'n gysylltiedig. Rydym wedi gallu gosod grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant hŷn i'w mabwysiadu.

Mae buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn cymorth mabwysiadu wedi galluogi Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddatblygu'r cymorth a gynigir i deuluoedd sy'n mabwysiadu a'r rhai y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt. Mae hyn wedi bod yn her o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud. Mae'r staff wedi darparu cymorth o bell yn ogystal ag wyneb yn wyneb ac wedi bod yn greadigol iawn wrth ddod o hyd i ffyrdd eraill o gefnogi teuluoedd. Ysgrifennodd un gweithiwr cymorth lyfr am ddychwelyd i'r ysgol i blant.

Fodd bynnag, dim ond wyneb yn wyneb y gellir darparu rhai ymyriadau therapiwtig, felly mae canfod ffyrdd o wneud hynny wedi bod yn fwy o broblem, sydd wedi achosi oedi.

Stori Mynd yn ôl i'r Ysgol gan Weithiwr Mabwysiadu

Roedd Rachel Cook wedi bod eisiau ysgrifennu stori i blant erioed. Ond doedd hi erioed wedi gallu dod o hyd i'r amser i eistedd i lawr a gwneud hynny. Yna daeth y pandemig coronafeirws – a roddodd rywfaint o amser rhydd iddi a hefyd yr ysbrydoliaeth i fynd ati i ysgrifennu.



Aeth Rachel, sy'n gweithio i Gyngor Sir Caerfyrddin fel Gweithiwr Cymorth Mabwysiadu, ati yn ystod y cyfyngiadau symud i ysgrifennu a darlunio stori Dewi'r Diogyn yn mynd yn ôl i'r ysgol. Y gobaith yw y bydd y stori'n helpu plant sy'n teimlo'n bryderus am fynd yn ôl i'r ysgol ar ôl bod gartref am gymaint o amser. Dywedodd Rachel, 36 oed, sydd bob amser wedi gweithio gyda phlant agored i niwed a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol: "Dw i bob amser wedi mwynhau bod yn greadigol ac wedi breuddwydio ers cryn dipyn o amser am ysgrifennu straeon byrion i blant a'u darlunio. Ni ddychmygais erioed y byddai'r stori gyntaf y byddwn yn ei hysgrifennu yn ymwneud â phandemig, ond ar adeg o gymaint o newid ac ansicrwydd dechreuais feddwl am y nifer fawr o blant dwi wedi'u cefnogi dros y blynyddoedd drwy gyfnodau pontio a pha mor heriol y byddai hyn i gynifer ohonynt. Yn aml, mae newid yn her fawr i blant, a gyda'r newidiadau sy'n ein hwynebu wrth i ni ddechrau dychwelyd i'r ysgol, efallai bydd y newid hwn yn gymysgedd o emosiynau a theimladau. Mae storïau yn ffordd naturiol i blant ddysgu am eu teimladau, i'w helpu i ddysgu bod eu profiadau nhw o boeni neu deimlo'n bryderus am ddychwelyd i'r ysgol yn brofiadau y mae llawer yn eu hwynebu. Mae'r stori hon yn canolbwyntio ar y cyfarwydd, yn enwedig o amgylch perthnasoedd, gan fod teimladau o bryder weithiau yn dod yn ddarwybod i ni, ac er nad ydym efallai yn gwybod popeth am yr hyn fydd yn digwydd yn yr ysgol yn ystod y misoedd nesaf, wrth feddwl am rai o'r pethau fydd yn aros yr un fath, gallwn helpu ein plant i deimlo'n fwy diogel". Mae tîm cyfieithu'r Cyngor wedi cyfieithu'r stori i'r Gymraeg, ac mae'r Cyngor wedi trefnu i argraffu copiâu i'w rhoi yn ysgolion cynradd y sir.

Dywedodd y Cyngorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant: "Mae hon yn stori wych ac rwy'n siŵr y bydd yn helpu llawer o blant sy'n teimlo'n ansicr am ddychwelyd i'r ysgol. Llongyfarchiadau Rachel a diolch yn fawr, rwyf wrth fy modd y bydd y llyfr yn mynd i'n hysgolion cynradd er mwyn i ddisgyblion ei fwynhau."

Eleni mae'r Gwasanaethau i Oedolion a Phlant wedi cydweithio i greu a gweithredu **gwasanaeth anabledd 0-25**. Bydd hyn yn sicrhau bod cymorth yn cael ei seilio ar anghenion plant, nid ar eu hoedran, fel y gallant dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan mae eu hangen a lle y gallant gael gafael arnynt yn y ffordd fwyaf hwylus. Rydym wedi buddsoddi yn y gwasanaeth Cymorth Cynnar i ddarparu mynediad at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth i deuluoedd yn gynt. Rydym hefyd

wedi datblygu dull aml-broffesiynol o fewn ein tîm statudol fel y bydd anghenion cymorth pob teulu yn cael eu goruchwyllo gan dîm sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol oedolion a phlant, staff arbenigol ym maes iechyd a seicoleg addysg. Byddant yn defnyddio dull systemig sy'n seiliedig ar berthynas, gan adeiladu ar gryfderau teuluoedd i oresgyn eu problemau eu hunain. Rydym yn parhau i gyfarfod â rhieni plant anabl yn fisol. Mae ein grwpiau 'Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi cael eu defnyddio i adolygu gwasanaethau ac i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau i deuluoedd.

Gwelsom bwyslais cryf ar ddisgyblaethau proffesiynol yn cydweithio; er enghraifft, seicolegydd addysg yn rhan o'r Tîm Anabledd 0-25 a swyddi arbenigol eraill yn y tîm hwn yn darparu gwybodaeth arbenigol. Cawsom ymatebion cadarnhaol gan staff ynglŷn â'r newidiadau strwythurol i'r Tîm 0-25 a ddigwyddodd y llynedd.

“Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021”

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu 'cynnig lleol' o gefnogaeth i blant a phobl ifanc anabl/awtistig a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys treialu darpariaeth ragweithiol o wybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd gyda Llesiant Delta. Ffurfiwyd gweithgor gan y Rheolwr Cymorth Cynnar sydd â chynrychiolaeth o'n grŵp rhieni i ddechrau datblygu'r cynnwys.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o'n gwasanaethau preswyl ar gyfer plant anabl er mwyn sicrhau eu bod yn paratoi plant ar gyfer bywyd fel oedolyn. Ymgynghorwyd â rhieni, rheolwyr, a staff, a chytunwyd ar nifer o newidiadau a fydd yn cael eu datblygu i'n galluogi i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth presennol yn parhau i fod yn dda, yn ogystal â chynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol. Dechreuodd rheolwr y gwasanaethau preswyl newydd yn ei swydd ym mis Ionawr 2021. Bydd yn ymgymryd â rhaglen waith i adolygu ein gwasanaethau presennol, yn ogystal â datblygu gwasanaethau newydd fel nad oes angen i bobl ifanc ag anabledd dysgu adael Sir Gaerfyrddin i gael mynediad i goleg preswyl.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi parhau i sicrhau bod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi derbyn Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau, adnoddau a datblygiadau, yn enwedig mewn perthynas â Covid-19 a materion sy'n flaenoriaeth. Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dal i dyfu a datblygu, ac mae cynnydd o 62% wedi bod yn nifer yr ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Addasodd prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn gyflym ac yn arloesol i'r newidiadau yn y ddarpariaeth yn ystod y pandemig, ac yn ystod y flwyddyn cafodd 8362 o unigolion (2409 o deuluoedd) gymorth gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac roedd 45% yn deuluoedd newydd.

Roedd pecynnau gwaith cartref Dechrau'n Deg wedi llwyddo i ddarparu Dysgu Blynyddoedd Cynnar i'r plant Dechrau'n Deg hynny nad oeddent yn gallu mynychu eu meithrinfa oherwydd y pandemig. Ers mis Medi mae 677 o becynnau wedi cael eu dosbarthu. Mae'r Ap Dechrau'n Deg wedi bod yn allweddol o ran ymestyn allan i deuluoedd, cyflawni gwasanaethau a darparu negeseuon a gwybodaeth allweddol i'n teuluoedd i gyd.

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi parhau i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i blant a theuluoedd, a hynny'n bennaf dros y ffôn a dulliau digidol a chefnogi teuluoedd yn yr awyr agored yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ymweld ag ysgolion pan oeddent wedi ailagor. <https://youtu.be/owHIBYyAFKY>

Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, cynyddodd nifer yr adroddiadau cam-drin domestig yn sydyn. Ymatebodd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion i hyn drwy gynyddu ymwybyddiaeth mewn ysgolion o effaith cam-drin domestig a hyrwyddo gwasanaethau cymorth, a chafodd y Pecyn Cymorth Cam-drin Domestig ar gyfer ysgolion ei ddiweddarau.

Datblygwyd polisi amddiffyn plant sy'n benodol i Covid-19 gan gynnwys gwybodaeth am Gam-drin Domestig. Cafodd teuluoedd a oedd yn agored i'r tîm eu graddio (RAG) a lle bo'r angen, cysylltwyd â nhw'n ddyddiol, yn enwedig gan fod llawer o blant wedi ei chael hi'n anodd ymdopi ag effaith y pandemig ochr yn ochr â'r cyfnodau o gau ysgolion, hunanynysu, a dysgu o bell.

Ychydig cyn y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth cynyddodd nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref a bu i'r duedd honno barhau hyd nes bod, ar gyfartaledd, 25 o blant ychwanegol yr wythnos yn cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae methiant hirdymor y llywodraeth i lunio deddfwriaeth briodol i'n galluogi i gefnogi a monitro'r bobl ifanc hyn wedi cael cryn sylw, ac mae'n destun pryder sylweddol gan y bwrdd diogelu rhanbarthol, y Comisiynydd Plant a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol sy'n cynghori'r llywodraeth. Bydd y Cyfarwyddwr Addysg a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i godi'r mater hwn gyda'r llywodraeth.

Mae'r tîm Gofalwyr Ifanc wedi parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a chymorth i ofalwyr ifanc gan gynnwys cymorth emosiynol a chwnsela.

Mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi parhau i gael eu gweld ac maent hefyd wedi cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth ac mae'r tîm wedi darparu amrywiaeth o hyfforddiant a chymorth. Ar 31/3/21, o'r 132 o bobl oedd yn gadael gofal – roedd 15 yn y Brifysgol, 34 mewn Addysg Bellach, 22 yn yr ysgol, 3 yn y 6ed dosbarth, 16 mewn cyflogaeth amser llawn, 11 mewn hyfforddiant amser llawn, ac 1 mewn lleoliad gwaith amser llawn â thâl. Mae 7 o bobl ifanc wedi bod yn gweithio fel Gweithwyr Allweddol ochr yn ochr â'u hastudiaethau, ac mae 10 o'r bobl ifanc sy'n gweithio'n amser llawn yn Weithwyr Allweddol.

Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant a'r Tîm Iechyd Emosiynol. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant a'r Tîm Iechyd Emosiynol wedi parhau i ddarparu ymyriadau therapiwtig, ymgynghori, asesu, a hyfforddi drwy ddulliau o bell a lle bo hynny'n hanfodol, wyneb yn wyneb. Mae cymorth bugeiliol ychwanegol wedi'i roi i'r ysgol, a ddarparodd Ganolfannau Gofal Plant i blant gweithwyr allweddol hanfodol a'r rheiny oedd yn agored i niwed yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd y

gwasanaeth wedi parhau i gefnogi Cynorthwyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol ac wedi gweithio i gyflwyno prosesau diogel yn gyflym er mwyn i ddisgyblion barhau i dderbyn cwrsela yn ystod y cyfyngiadau symud. Hefyd roedd ymyriadau therapiwtig wedi'u treialu gyda disgyblion blwyddyn 5 ac is drwy ymagwedd ysgol gyfan at lesiant emosiynol.


Gwelsom fod gwasanaethau a gomisiynwyd drwy gydweithwyr addysg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddeilliannau plant.

“Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021”

Darpariaeth Gofal Uniongyrchol

Cartref Gofal

Mae effaith fwyaf Covid-19 wedi parhau i fod ar y sector cartrefi gofal yn Sir Gaerfyrddin, yn enwedig cartrefi gofal i bobl hŷn, a hwn yw'r maes risg mwyaf sylweddol. Yn yr ail don, mae llawer mwy o achosion wedi bod mewn cartrefi gofal ac mae gwaharddiad wedi bod mewn derbyniadau newydd mewn nifer fawr iawn o gartrefi oherwydd achosion positif. Roedd cyfanswm o 33 o gartrefi gofal i bobl hŷn yn destun gwaharddiad, ac o'r rhain, ystyriwyd bod achosion mewn 16 ohonynt. Yn ogystal, roedd 23 o gartrefi gofal i bobl ag anabledd dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl hefyd yn destun gwaharddiadau gydag achosion yn 8 o'r rhain. Mae'r achosion wedi edrych yn wahanol iawn yn yr ail don oherwydd cyfraddau trosglwyddo uchel iawn yn y gymuned, a datblygiadau sylweddol o ran Profi, Orlhain, Diogelu a'r systemau profi.



Er bod tristwch mawr yn y sector ynghylch pob unigolyn a gollir i Covid-19, mae'r gwerthusiadau allanol yn Atodiadau 3 a 4 wedi rhoi sicrwydd i'r awdurdod lleol ein bod ni wedi gwneud popeth yn ein gallu i gefnogi cartrefi gofal yn y Sir. Lle nad yw pethau wedi bod yn iawn, rydym wedi dysgu i wella arferion wrth symud ymlaen.

Arweiniodd y datblygiadau mewn profi a phrosesau Profi Olrhain Diogelu at lawer mwy o amddiffyniad i staff a phreswylwyr, ac yn ddi-os maent wedi helpu i leihau nifer y marwolaethau posibl. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn hefyd wedi dod â heriau sylweddol sydd wedi golygu ein bod wedi bod mewn sefyllfaoedd ar sawl achlysur lle mae 50% o sefydliad gweithlu i ffwrdd o'r gwaith ar yr un pryd. Roedd canlyniadau profion Covid yn tueddu i ddod yn ôl mewn sypiau, felly roedd yn gyffredin gweld nifer sylweddol o staff yn gorfod hunanynysu ar unwaith.

Felly, datblygwyd cyfres o opsiynau gennym i allu cefnogi cartrefi drwy ymateb gan y gweithlu pan fo angen. Mae hyn wedi cynnwys contractau bloc gydag asiantaethau, adleoli ein staff ein hunain, cyd-gymorth gan Gyngor Sir Penfro a'r Bwrdd Iechyd i gefnogi staffio, trefniadau rheoli ar-alw dros benwythnosau a gwyliau banc, ac yn y ddau achos mwyaf difrifol, yr Awdurdod Lleol yn rheoli'r cartref am y tro. Diolch byth, yn dilyn y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n trosglwyddo Covid yn y gymuned a chyflwyno'r rhaglen frechu, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd achosion mewn unrhyw gartrefi gofal a dim ond llond llaw oedd dan 'waharddiad'.

Mae'r rhan fwyaf o'r gofal a'r cymorth yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddarparu gan y sector comisiynu annibynnol. Mae'r tîm Comisiynu yn Sir Gaerfyrddin wedi chwarae

rhan sylweddol wrth gefnogi'r gwasanaethau hyn yn ystod y pandemig. Mae'r ystod o gymorth wedi cynnwys:

- Cydgysylltu'r gwahanol gyfathrebu a chanllawiau.
- Cydgysylltu a chyflenwi cyfarpar diogelu personol.
- Cyfathrebu rhagweithiol gan gynnwys llinell gymorth 24/7 pan oedd y pandemig ar ei anterth.
- Cymorth ar gyfer asesiadau risg sy'n ymwneud â phobl yn cael eu derbyn/rhyddhau o'r ysbyty.
- Cychwyn trefniadau perfformiad darparwyr i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch Covid-19 neu bryderon eraill mewn perthynas â darparu gwasanaethau.
- Cymorth gyda phrofi a rheoli heintiau.
- Cymorth ariannol.
- Cydgysylltu'r cymorth a'r cyswllt â chartrefi gofal lle mae achosion.

Dywedodd darparwyr wrthym am gyfathrebu da a chyfarfodydd cadarnhaol gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol yn ystod y pandemig. Fe ddywedon nhw fod cyfathrebu da a diwylliant o gydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Clywsom sut roedd y berthynas rhwng darparwyr a thimau rheoli gofal wedi'i chryfhau yn ystod y pandemig.

“Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021”

Mae ymweliadau gan deuluoedd a ffrindiau â chartrefi gofal wedi bod yn her, ac maent yn parhau i fod yn her. Yn ein cartrefi ein hunain, rydym yn parhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi ein galluogi i weithredu cynllun i ganiatáu ymweliadau wedi'u rheoli, gan gydbwysu materion rheoli heintiau â'r angen i breswylwyr weld eu hanwyliaid. O ran cartrefi allanol, rydym wedi eu hannog i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae cartrefi gofal mewnol ac allanol wedi parhau i wynebu'r heriau canlynol:

- Nifer cynyddol o welyau gwag, oherwydd nifer y preswylwyr sydd, yn anffodus, wedi marw yn ystod y pandemig, ac anawsterau o ran derbyniadau newydd sy'n gysylltiedig â statws 'gwahardd'.
- Effaith ariannol o ran y cynnydd yn nifer y staff sydd ei angen oherwydd staff yn gwarchod a phreswylwyr yn cael eu hynysu; a
- Rheoli'r effaith feddyliol a chorfforol ar staff e.e. Llwyth gwaith ychwanegol, delio â sefyllfaoedd diwedd oes heb fawr ddim cysylltiad, os o gwbl, gan y teuluoedd a phwysau ar y timau.

Lle bynnag y bo modd, rydym yn manteisio ar y cyfle i fyfyrio ar sut y gallwn wella a gwneud pethau'n well yn y dyfodol. Er enghraifft, comisiynwyd adolygiad annibynnol **gennym i werthuso ein dull o gefnogi cartrefi gofal** (Atodiad 3) yn y don gyntaf, ac mae hyn wedi bod yn hynod werthfawr o ran llywio sut rydym wedi ymateb yn yr ail don.

Gofal Cartref

Effeithiwyd ar y gwasanaethau Gofal Cartref hefyd, ond gyda Chymorth y Bwrdd Gweithredol a'r Prif Weithredwr roeddem wedi gallu cymryd camau cynnar i gefnogi'r gweithlu gofal cartref. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Adleoli swyddogion gwasanaeth dydd a hamdden i ddarparu gofal.
- Ad-drefnu pecynnau gofal mwy yn seiliedig ar asesiadau risg.
- Cyflwyno hyfforddiant llwybr carlam a recriwtio treigl.
- Sefydlu pecyn recriwtio a chadw ar gyfer staff gofal mewnol. Caiff hyn ei adolygu'n fisol.
- Cynyddu cyfraddau gofal cartref a gomisiynir dros dro punt yr awr.
- Cyflwyno taliad ymlaen llaw am oriau a gomisiynir ar gyfer asiantaethau gofal cartref er mwyn sicrhau bod llif arian yn cael ei gynnal yn y sector.

Mae ein proses recriwtio llwybr carlam wedi bod yn hynod lwyddiannus. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 25 o ofalwyr newydd wedi cael eu penodi'n fewnol, ac mae'r nifer hwn yn gwneud iawn am yr absenoldeb ychwanegol cysylltiedig â Covid-19. Roedd salwch cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol ac mae llawer o staff sy'n gweithio'n rhan-amser yn barod i wneud oriau ychwanegol.

Rwy'n arbennig o falch o'n gweithlu mewnol sydd wedi dangos gwydnwch ac ymrwymiad rhyfeddol ac wedi parhau i ddarparu gofal i'n pobl fwyaf agored i niwed drwy gydol y pandemig hyd yn oed ar y dechrau pan nad oedd digon o PPE. Cafwyd heriau o ran salwch yn ystod 2020 er mai dim ond traean oedd yn gysylltiedig â covid; mae cynifer wedi gweithio oriau ychwanegol ac wedi bod yn hyblyg i sicrhau bod galwadau'n parhau. Mae uwch-staff a goruchwylwyr hefyd wedi cyflawni dyletswyddau rheng flaen pan fo'r angen. Mae'r staff hefyd wedi bod yn wiliadwrs wrth ddefnyddio arferion gweithio diogel a defnyddio PPE.

Yn ystod y pandemig, trosglwyddwyd cwmni gofal cartref annibynnol bach i'r gwasanaeth. Cafodd Uwch-reolwr newydd ar gyfer gofal cartref ei benodi hefyd ac fe gychwynnodd ym mis Mawrth 2021. Cynhaliwyd cyfarfodydd cydymffurfio rheolaidd ag AGC ar gyfer yr holl wasanaethau cofrestredig yn ystod 2020/21 ac maent wedi bod yn gadarnhaol iawn. Un o'r amcanion allweddol wrth symud ymlaen yw tyfu'r gwasanaeth cartref mewnol a fydd yn cynnwys cefnogi'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Gweithiodd ein sector preswyl plant drwy gydol y pandemig ac maent wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran diogelu plant agored i niwed sydd yn eu gofal.

Cwynion a Chanmoliaeth

Oedolion

Ar ddiwedd Ch4 20/21, cafodd yr adran gyfanswm o 277 o sylwadau yn ei chanmol, ac mae hwn yn gynydd o 156% o'i gymharu â'r llynedd. Mae'r nifer fwyaf o'r

canmoliaethau hyn i'n tîm Gofal Cartref Mewnol sy'n cyfrif am gyfanswm o 89 o'r canmoliaethau hyn.

Cofnodwyd cyfanswm o 34 o gwynion naill ai yng Nghyfnod 1 neu 2 mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae'n rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad yr adran yng nghyd-destun 4,355 o unigolion a dderbyniodd wasanaeth gofal cymdeithasol gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu bod ymhell o dan 1% o unigolion wedi cwyno'n ffurfiol am y gwasanaeth a gawsant. Cafwyd 28 cwyn datrysiaid lleol cam 1 a 6 chwyn ffurfiol Cam 2, sy'n golygu bod yr adran wedi derbyn 46% yn llai o gŵynion o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Derbyniodd yr adran 52 o 'bryderon' pellach nad oeddent yn dilyn llwybr ffurfiol Cam 1 neu Gam 2. Roedd dau o'r chwe chwyn cam 2 wedi datblygu o gam 1. O'r tair cwyn cam 2 a gwblhawyd, ni chadarnhawyd 2 a chadarnhawyd 1 yn rhannol.

Plant

Ar ddiwedd Ch4 20/21, derbyniwyd 11 o sylwadau o ganmoliaeth gan rieni, gofawyr ac asiantaethau eraill. Roedd y ganmoliaeth yn cynnwys sylwadau yn ymwneud ag adroddiadau gweithwyr cymdeithasol unigol, y ffordd roeddent yn cyfathrebu â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â'u gwaith ysgrifenedig.

Cafwyd 9 cwyn cam 1 mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant. Cadarnhawyd 5 o'r cwynion Cam 1. Ymchwiliwyd yn annibynnol i 3 cŵyn Cam 2 Statudol, ac ni chafodd y rhain eu cadarnhau gan y Swyddog Ymchwilio Annibynnol. Ymchwiliwyd i gŵyn arall gan Swyddog Ymchwilio Annibynnol; roedd hon yn hen gŵyn ac felly nid oedd yn dod o dan Weithdrefnau Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, edrychwyd arni i weld a allai'r adran ddysgu unrhyw beth ohoni.

Gwnaethom gynnal arolwg rhagweithiol yn ystod y pandemig i'r rhai a oedd wedi derbyn gwasanaethau gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol dros ben. Roedd yr adborth yn cynnwys y canlynol:

"Dyna yw eu prif flaenoriaeth wedi bod wrth sefydlu fy nghynllun gofal."

"Yn gyfforddus iawn ac yn teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi mewn ffordd briodol."

"Roedd y menywod yn amyneddgar ac yn faddeugar iawn, o wybod bod gen i anaf i'r ymennydd."

Y Gweithlu

Mae cael y bobl orau i weithio i'r Awdurdod yn golygu y gellir darparu'r gofal cymdeithasol gorau posibl i'n pobl yn y gymuned. Mae'n bwysig bod staff yn ymfalchïo yn y gofal cymdeithasol maent yn ei ddarparu ac yn teimlo cysylltiad â'r Awdurdod Lleol, eu cymunedau a'r timau maent yn gweithio ynddynt.

Mae hyblygrwydd a gwytnwch ein gweithlu wedi ein rhyfeddu drwy gydol y pandemig. Yn anad dim, mae ein staff preswyl mewnol wedi cael eu hadleoli i gefnogi cartrefi gofal yn y sector annibynnol lle bo angen pan fo achosion o Covid ynddynt. Cafodd staff hamdden eu hadleoli i gefnogi ein gwasanaethau rheng flaen. Rhagorol yw'r unig ffordd o ddisgrifio'r ymrwymiad a'r tosturi maent wedi eu dangos. Mae'r lefelau recriwtio a chadw staff yn dal i fod yn dda yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae lefelau cadw staff gwaith cymdeithasol yn dda ar y cyfan ac mae pob swydd heblaw llond dyrnaid yn eithaf hawdd recriwtio iddynt.

Mae ymgysylltiad wedi'i gynnal â'r Undebau Llafur drwy fforymau Undebau Llafur yr Adran ac mae materion wedi cael sylw yn ôl yr angen.

Roedd y gweithlu'n alluog iawn o ran gwybod sut i weithio gyda phobl, ac mae hyn wedi parhau i'r graddau mwyaf posibl yn ystod y pandemig. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant ar-lein wedi bod ar gael a'i fod yn hygyrch i bartneriaid. O ystyried amgylchiadau'r pandemig, gwelsom fod morâl y staff yn dda iawn.

Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith emosiynol a seicolegol enfawr ar lawer o'n staff, ac na ddylid diystyru'r effaith. Rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i'w cefnogi i sicrhau bod ein staff yn elwa ar ein rhaglen gymorth llesiant corfforaethol. Rydym yn rhoi sylw penodol i sut gallwn gefnogi staff sydd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion mewn cartrefi gofal, gan ein bod yn sylweddoli pa mor anodd mae hyn wedi bod a'r niwed emosiynol mae wedi'i gael.


Mae pob un o'r timau gofal plant wedi bod yn defnyddio **dull systemig** o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol. Mae 30 o staff a rheolwyr ar fin cwblhau'r cymhwyster Blwyddyn Sylfaen Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Systemig a hefyd, cymerodd gweithwyr cymdeithasol ar draws y gwasanaeth ran mewn digwyddiad hyfforddi 3 diwrnod. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn, mae gan staff bellach y wybodaeth i gefnogi eu harferion a fydd yn cynyddu hyder ac yn sicrhau cysondeb.

Mae cyfyngiadau Covid wedi effeithio ar weithio pod gan fod llawer o staff yn gweld cyfathrebu nad yw'n digwydd ar lafar yn anoddach ac yn ei chael yn anos bod yn greadigol wrth drafod achos mewn cyfarfod o bell. Fodd bynnag, parhaodd cyfarfodydd pod drwy gydol y flwyddyn a gwnaeth y staff pob ymdrech i'w gwneud mor effeithiol â phosibl.

Mae'r staff yn dal i fod yn gadarnhaol ynghylch manteision dull systemig. Maent yn ei weld o gymorth a hefyd yn gwerthfawrogi sut mae'n gwneud y gorau o wahanol safbwyntiau er mwyn deall yn well sut mae teulu'n gweithio, yn ogystal ag effaith ac ystyr perthnasoedd yn y teulu ar y plentyn.

Darparwyd cymorth rhagorol gan y gwasanaethau TG i foderneiddio arferion gwaith wrth i'n gweithlu cyfan droi'n ystwyth yn 2020. Wrth symud ymlaen mae angen i ni gael y cydbwysedd cywir rhwng defnyddio atebion digidol a rhyngweithio wyneb yn wyneb.

Cafodd arolwg ei gynnal ym mis Ebrill 2021 ar "Sgôr i'r Adran fel Cyflogwr" yn seiliedig ar ddadansoddiad Sgôr Hyrwyddwr Net. Gofynnwyd i holl staff yr Adran roi "Sgôr i'r Adran fel Cyflogwr" er mwyn i ni ddeall eu profiad o weithio yn yr adran a'r is-adran. Y canlyniad cyffredinol oedd bod staff o'r farn bod yr adran yn lle cadarnhaol i weithio. Mae barn y staff wedi gwella'n sylweddol o dda i wych ers 2017.



Yr Iaith Gymraeg

Dros y 9 mis diwethaf mae ein lefelau siarad Cymraeg wedi cynyddu o 33% i 35%.

Gwelsom y 'Cynnig Rhagweithiol' Cymraeg yn cael ei hyrwyddo a chofnod yn cael ei wneud o iaith gyntaf pobl, a gwasanaethau'n cael eu darparu yn newis iaith pobl. Cydnabyddir bod yr iaith a ffeifrir yn ffactor allweddol wrth feithrin perthynas effeithiol rhwng pobl ac ymarferwyr.

"Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021"

Casgliad a'r Camau Nesaf

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn dangos ymateb cryf i'r pandemig a bod gwasanaeth effeithiol wedi parhau i gael ei ddarparu ar hyd y flwyddyn ddiwethaf. Cadarnhawyd hyn yn gynnar eleni gan yr arolygiaeth genedlaethol. Mae'n anochel ein bod yn wynebu'r flwyddyn nesaf yn ansicr a yw diwedd y pandemig yn y golwg neu beth yn union fydd y normal newydd. Mae gennym weithlu sydd wedi blino'n lân ar ôl blwyddyn anodd a rhaid inni roi blaenoriaeth i'w cefnogi nhw yn y newidiadau i wasanaethau y bydd eu hangen os ydym am barhau i berfformio'n dda. Bydd y cynlluniau busnes ar gyfer y gwasanaethau yn sbarduno'r newid angenrheidiol wrth symud ymlaen a gallwn fod yn hyderus bod gennym y gweithlu a'r rheolwyr sydd eu hangen i addasu i heriau'r dyfodol. Yn y tablau isod rydym wedi nodi llawer o'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen yn y flwyddyn i ddod:

Y Gwasanaethau plant:

Rhif	Cam gweithredu	Gan Bwy
1	Byddwn yn sicrhau bod y trothwy rhanbarthol a'r trefniadau amddiffyn plant amlasiantaethol yn gweithio'n effeithiol.	Noreen Jackman
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar i deuluoedd dan anfantais sydd â phlant (0-3 oed) ac sy'n byw mewn cymunedau amddifad penodol, gan sicrhau bod cymorth amlasiantaeth da yn cael ei roi i deuluoedd.	Noeline Thomas
3	Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella'r opsiynau o ran llety priodol a chymorth â thai i'r holl bobl ifanc agored i niwed rhwng (16-25 oed) ac i weithredu fframwaith llety'r rhai sy'n gadael gofal	Bethan James
4	Byddwn yn gweithredu gwasanaeth anabledd ar y cyd ar gyfer plant, pobl ifanc 0-25 oed a'u teuluoedd i sicrhau bod ein gwasanaethau'n seiliedig ar angen nid ar oedran.	Kelvin Barlow
5	Byddwn yn parhau i geisio lleihau nifer y plant sy'n dechrau Derbyn Gofal a nifer yr achosion gofal yn unol â'n targed lleihau plant sy'n Derbyn Gofal, fel y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio Ar Ffiniau Gofal, y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm Ymyrraeth i Deuluoedd.	Jayne Meredith

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Integredig

Rhif	Cam gweithredu	Gan Bwy
1	Byddwn yn datblygu ein dull cyffredinol o ymdrin â Gwasanaethau Integredig, fel y gallwn helpu i ddatblygu cymunedau cryf, helpu pobl i helpu eu hunain, darparu cymorth pan fydd ei angen ar bobl a darparu cymorth hirdymor tra'n cadw pobl yn ddiogel. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gallu gwneud hyn drwy gytuno ar weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Integredig rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd, cytundeb Adran 33 newydd sy'n nodi ein cyfrifoldebau cyfunol, a chytuno ar strwythur newydd i gefnogi cyflawni.	Alex Williams
2	Byddwn yn datblygu ein gweledigaeth gyffredinol a'n cynllun/llwybrau strategol ar gyfer atal, gofal rhagweithiol gan gynnwys <i>approach dementia</i> , gofal canolraddol a gofal hirdymor, er mwyn sicrhau y gallwn wireddu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau integredig a rheoli'r galw'n effeithiol. Fel rhan o hyn, byddwn yn cyflawni'r amcanion corfforaethol fel a ganlyn: • Byddwn yn datblygu'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy wella'r Tîm Amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod cynifer o unigolion â phosibl yn cael cymorth i gyflawni canlyniadau ataliol. (14694) • Byddwn yn parhau i gefnogi pobl sy'n byw â dementia ac i gefnogi datblygiad cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia a darpariaethau ar draws y Sir (14695) Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl yn parhau i fod â chysylltiad cymdeithasol, yn enwedig drwy ddefnyddio cymorth rhithwir fel prosiect Connect, er mwyn lleihau unigrwydd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi (14696)	Alex Williams
3	Byddwn yn ail-lunio ein dull o gefnogi llif cleifion a chartref yn gyntaf drwy ddatblygu'r llwybrau uchod a sicrhau bod prosesau monitro ac uwchgyfeirio ar waith i sicrhau llif effeithiol i gleifion.	Alex Williams
4	Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan helpu ein staff i ddysgu'n rhithwir ar hyn o bryd, er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r 'Cynnig Rhagweithiol' (146797)	Angharad Jenkins
5	Byddwn yn datblygu model adfer cyffredinol i ailgynllunio cymorth a gwasanaethau yn ystod ac ar ôl pandemig Covid-19. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn ailgychwyn gwasanaethau dydd yn ddiogel/ datblygu cyfleoedd dydd yn ogystal ag ailalluogi ar sail gwelyau.	Alex Williams
6	Sefydlu Delta Connect fel prif wasanaeth teleofal wedi'i atal o fewn y wlad. Datblygu gyda'r byrddau iechyd ymyrraeth drwy deleofal/tele-iechyd	Alex Williams

7	Byddwn yn sicrhau bod gennym ymagwedd bob oedran ar gyfer cymorth cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys modelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth i ymateb i Covid-19. (12540)	Sharon Frewin
8	Cynnal darpariaeth gofal cartref mewnol cryf a chynaliadwy i'r Cyngor a chefnogi'r tîm comisiynu i ddatblygu fframwaith newydd gan gynnwys ailddatblygu'r gwasanaethau ailalluogi (13225)	Julie Duggan
9	Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Byddwn yn hyrwyddo annibyniaeth, ymyrraeth gynnar ac atal ac yn sicrhau bod cymorth a gwasanaethau ar gael (14698)	Mark Evans/ Kelvin Barlow
10	Gweithredu mesurau i ymateb i'r hanfodion gweithredol a strategol sy'n gysylltiedig â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS), Safonau Diogelu Rhyddid (LPS) a'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)	Cathy Richards
11	Cydweithio â chydweithwyr ym maes comisiynu, tai a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ystod o lety â chymorth	Mark Evans/ Kelvin Barlow

Strwythur Rheoli'r Adran



Atodiad 1 – Hysbysiad Statudol Mawrth 2020

Gellir darllen adroddiad yr hysbysiad statudol yma: [Hysbysiad Adroddiad](#)

Hysbysiad Statudol Mehefin 2020

Adroddiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 30/3/2020

1. Cyflwyniad

O dan y Côd Ymarfer a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i gynghori cynghorwyr ynghylch - ymysg pethau eraill - yr heriau, y risgiau a'r amgylchiadau lle mae materion staffio'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol, ac i briffio'r Prif Weithredwr a'r cynghorwyr ynghylch materion sy'n debygol o achosi pryder ymhlith y cyhoedd a strategaethau i ymdrin â'r sefyllfaoedd hynny.

Rwyf wedi bod yn Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ers saith mlynedd a dyma'r tro cyntaf i mi gyflwyno nodyn cyngor ffurfiol i gynghorwyr y tu allan i'm hadroddiad Blynyddol. Adroddiad cryno yn unig yw hwn ac nid yw'n cynnwys pob maes gweithgarwch. Bydd y rhain yn cael sylw yn fy adroddiad blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn neu mewn unrhyw nodiadau cyngor pellach y credaf fod angen adrodd arnynt.

Fel y mae'r aelodau i gyd yn gwybod, rydym ar ddechrau Argyfwng Cenedlaethol ac mae'r pwysau'n cynyddu wrth i achosion o'r Coronafeirws gynyddu yn y sir. Mae llawer o wasanaethau wedi dod i ben yn gyfan gwbl ac mae'r ddarpariaeth wedi cael ei haddasu i'n cleientiaid mwyaf agored i niwed yn seiliedig ar asesiadau risg unigol.

Mewn rhai achosion, mae teuluoedd wedi tynnu gwasanaethau'n ôl gan fod y cyfyngiadau symud yn galluogi plant i ofalu am rieni. Mae hyn wedi helpu i gynnal darpariaeth statudol mewn llawer o'n meysydd allweddol. Yn gyffredinol, mae ein gwasanaethau'n gwneud yn dda o dan yr amgylchiadau, ond mae risgiau sylweddol wrth symud ymlaen.

2. Gofal Cartref

Rydym yn wynebu heriau sylweddol o ran cynnal lefelau staffio wrth i absenoldebau oherwydd y Coronafeirws gynyddu (yn bennaf o achos hunanynysu oherwydd cyflyrau sylfaenol neu am fod symptomau gan aelodau o'r cartref). Rwy'n hynod falch o'r timau sy'n rhedeg ein gwasanaeth ac rydym yn parhau i ddarparu'r un faint o oriau gofal yn fras. Gan ystyried yr holl salwch, mae ein gwasanaethau mewnol yn gweithredu gyda tua 30% yn llai o staff. Mae camau gweithredu i gefnogi a chynnal gwasanaethau yn cynnwys:

- Lleihau parhad gofal gyda gofalwyr yn cael eu defnyddio i ymgymryd â galwadau hanfodol hyd yn oed pan fydd hyn yn lleihau patrymau galwadau arferol.
- Asesu risg pecynnau gofal a'u lleihau lle gallwn wneud hynny'n ddiogel.
- Adleoli swyddogion gwasanaeth dydd i ddarparu gofal.
- Lleihau pecynnau mwy yn seiliedig ar asesiadau risg.
- Cyflwyno hyfforddiant llwybr carlam a recriwtio treigl (rydym yn rhagweld y bydd 8 aelod o staff ychwanegol yn dechrau yn ystod yr wythnos i ddod).
- Cynyddu cyfraddau talu dros dro ar gyfer gofalwyr mewnol, gan gynnig amser a hanner am bob awr mae pobl yn gweithio dros 20 awr yr wythnos. Caiff hyn ei adolygu'n fisol drwy ein strwythurau rheoli brys.
- Cynyddu cyfraddau gofal a gomisiynir dros dro punt yr awr.
- Cyflwyno taliad ymlaen llaw am oriau a gomisiynir ar gyfer asiantaethau gofal cartref i sicrhau bod llif arian yn cael ei gynnal. Ar hyn o bryd mae ein hasiantaethau gofal a gomisiynir yn ymdopi, er dweud eu bod dan bwysau sylweddol. Fy asesiad cyffredinol yw bod ein gwasanaethau'n cael eu cynnal yn dda o dan yr amgylchiadau. Fodd bynnag, mae risg sylweddol i'w rheoli wrth symud ymlaen. Mae'r polisi cenedlaethol, y ddarpariaeth a'r cyflenwad o gyfarpar diogelu i'r sector yn achos gorbryder i rai staff a chleientiaid.

3. Gofal Preswyl

Mae gofal preswyl i bobl hŷn yn ymdopi'n dda yn yr amgylchiadau ac mae lleoliadau'n dal i gael eu trefnu, ac er ein bod wedi lleihau nifer y staff, mae'r lefelau yn parhau'n ddiogel. Mae ein cartrefi gofal a gomisiynir yn dweud bod lefelau staffio dal yn ddigonol ond eu bod o dan bwysau, ac mae nifer fach o gartrefi yn gwrthod derbyniadau newydd yn rheolaidd. Nid oes dim problemau o bwys wedi'u nodi hyd yn hyn yn y sector preswyl lechyd Meddwl, Plant nac Anabledd Dysgu. Mae ein gwasanaethau maethu a lleoli oedolion yn parhau'n sefydlog. Mae'r camau gweithredu i gefnogi'r sector wedi cynnwys:

- Talu amser a hanner am bob awr dros 20 awr. I'w adolygu'n fisol.
- Ariannu pob lle gofal i bobl hŷn a brynwn drwy £50 ychwanegol yr wythnos dros dro. Caiff hyn ei adolygu'n fisol drwy ein strwythurau rheoli brys. I'w adolygu'n fisol.
- Sicrhau y cedwir at bolisi dim ymwelwyr ym mhob cartref.
- Mae Ysgol Rhyd y Gors ar gael ar gyfer lleoliadau brys i blant.
- Mae ein cartrefi seibiant preswyl i blant yn parhau i fod ar agor ar gyfer argyfyngau yn unig.

Fy asesiad cyffredinol yw bod ein gwasanaethau'n cynnal darpariaeth hanfodol yn dda o dan yr amgylchiadau. Fodd bynnag, mae risg sylweddol i'w rheoli wrth symud ymlaen. Mae'r polisi cenedlaethol, y ddarpariaeth a'r cyflenwad o gyfarpar diogelu i'r sector yn achos gorbryder i rai staff a chleientiaid.

4. Gwasanaethau Allweddol Eraill:

Mae'r holl ddarpariaeth gofal dydd wedi'i hatal ac mae pecynnau gofal yn cael eu hasesu ac mae staff yn cefnogi cleientiaid yn y gymuned lle bo'r angen. Mae galwadau rhagweithiol gan Delta a thimau gwaith cymdeithasol yn monitro'r rheiny sy'n agored i niwed. Bydd mentrau ehangach y Cyngor hefyd yn gwella ein

gallu i ymateb i'r rhai mewn angen, a gan hynny, atal y swyddogaethau Gwasanaeth Cymdeithasol rhag cael eu llethu.

Mae gwaith cymdeithasol plant yn parhau i wneud yr holl waith monitro statudol ac yn dal i fod â'r gallu i weithredu pan fo'r angen. Mae o leiaf un set o achosion gofal wedi'u cyflwyno ac mae llysoedd yn dal i weithredu'n effeithiol. Mae achosion plant wedi cael eu risg-asesu gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant fel y gellir blaenoriaethu monitro a rhoi cefnogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Nifer fach o Ymarferwyr Iechyd Meddwl i Oedolion sydd, ac mae eu cadw'n heriol iawn. Mae'n bosibl y bydd gwasanaeth ar raddfa lai yn cael ei gynnig maes o law, yn dibynnu ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol dros dro, er bod y gofynion statudol yn dal i gael eu bodloni ar hyn o bryd.

5. Cyfarpar Diogelu Personol:

Mae cyfarpar diogelu personol i staff Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio'n bennaf at fenig, ffedogau, amddiffynwyr llygaid a gorchuddion wyneb sydd â nodwedd gwrthsefyll dŵr (mae manylebau manwl ynghylch yr hyn y dylid ei ddefnyddio). Rydym yn cynnwys gel llaw gan ei fod yn cael ei ystyried yn hanfodol, ac ar ôl ymdrechion sylweddol mae gennym gyflenwad digonol o hwn bellach ar gyfer y pythefnos nesaf. Mae pob eitem yn dafladwy.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y canllawiau cenedlaethol yw mai dim ond pan fo achos o'r Coronafeirws yn cael ei amau neu ei gadarnhau y defnyddir gorchuddion wyneb. Yn fy marn i, nid yw hyn yn adlewyrchu natur y gwaith gofal y mae'n ofynnol i weithwyr gofal cartref ei wneud, a hynny ar ben eu hunain i raddau, lle gall symptomau eu cleientiaid newid o ddydd i ddydd ac mae'n rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau heb gefnogaeth lleoliad a hierarchaeth uniongyrchol i gefnogi unrhyw asesiad risg.

Mae pryderon ynglŷn â'r maes hwn wedi cael eu mynegi ym mhob gohebiaeth a deialog rhwng y cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Yr wythnos diwethaf ysgrifennodd Arweinydd y Cyngor at y gweinidog yn tynnu sylw at bryderon.

Mae rheoli pryderon y defnyddwyr gwasanaeth yn anodd dros ben i staff, yn ogystal ag ymdopi â'u pryderon eu hunain. Mae'r staff gofal wedi dweud wrthyf fod 'ofn mawr' arnynt cyn dechrau eu sifft, ac rydym yn sicr bod y diffyg o ran defnyddio cyfarpar fel mater o drefn wedi lleihau capasiti'r gwasanaeth yn gyffredinol.

Gofal Cartref - Mae dilyn y canllawiau hyn yn heriol. Mae symptomau'r Coronafeirws yn cynnwys gwres, cur pen a/neu beswch. Mae'r rhain yn symptomau cyffredin yn achos llawer o gyflyrau cronig a heintiau y mae llawer o'n cleientiaid yn eu cael o ddydd i ddydd ta beth. Yn ogystal, mae llawer o'r bobl heintiedig ddim yn symptomatig. O ganlyniad mae canfod ai'r Coronafeirws sy'n gyfrifol am y symptomau hyn ai peidio yn gallu bod yn broblem; problem sy'n achosi gofid mawr i staff rheng flaen.

Credaf fod y sefyllfa genedlaethol yn fwy cymhleth o achos y canllawiau ar gyfer ynysu a gwarchod i lawer o'n defnyddwyr gwasanaeth a'r rheiny â chyflyrau cronig. Dengys canllawiau y dylai llawer o'n cleientiaid *'Gadw draw oddi wrth bobl, hyd yn oed ffrindiau a theulu.'* *Peidiwch â mynd allan o gwbl*'.

Ac eto, os oes angen gofal arnynt a all gynnwys cael eu bwydo a'u golchi (a mynd i'r toiled) gan hyd at 6 o wahanol bobl y dydd, nid oes cyfarwyddyd i ni y dylid rhoi dillad amddiffynnol i'r gofalcwyr hyn i leihau'r risg iddyn nhw neu'r cleient. Mae'r holl weithwyr gofal rheng flaen a nyrsys rwy' wedi siarad â nhw yn gweld y gwrthddywediad ymddangosiadol hwn. Nid wyf eto wedi siarad â neb sy'n darparu gofal sy'n cefnogi'r canllawiau presennol.

Cartrefi Gofal Y dystiolaeth yw bod nifer sylweddol o farwolaethau mewn gwledydd eraill mewn cartrefi nyrsio. Daeth ymchwiliadau i farwolaethau mewn cartref nyrsio yn Seattle yn yr Unol Daleithiau i'r casgliad nad yw'r symptomau *'yn ddigon i nodi pwy sydd wedi'u heintio pan fydd y coronafeirws mewn cyfleuster gofal hirdymor'*. Daeth yr adroddiad i'r casgliad *'cyn gynted ag y bydd achos wedi'i gadarnhau, dylai'r holl weithwyr gofal iechyd wisgo gorchuddion wyneb a dillad amddiffynnol eraill a dylid ynysu preswylwyr i'r graddau mwyaf posibl'*. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, o blith y 23 o breswylwyr wnaeth brofi'n bositif, dim ond gan 10 yr oedd symptomau ar y diwrnod cawsant eu profi. Mae hyn yn dangos ymhellach nad yw symptomau'n unig yn ddigon i brofi'r angen am ddosbarthu cyfarpar diogelu (y canllawiau presennol).

Profi - Mae'r oedi a'r cyfyngiad ar nifer y profion sydd ar gael yn gwneud fy mhryderon yn waeth. Ar hyn o bryd dim ond 80 y dydd sydd ar gael ar gyfer ardal y bwrdd iechyd hwn a dim ond fesul achos y gellir gofyn am brofi staff gofal. Er bod gwaith cenedlaethol sylweddol ar y gweill i gynyddu'r gallu i brofi, nid ydym eto wedi gweld effaith hynny ar y sector. Lle nodwyd symptomau mewn un lleoliad roedd oedi sylweddol o ran cael canlyniadau a oedd yn cadarnhau eu bod yn negyddol.

Cyflenwad - Y sefyllfa bresennol yw y bydd cyfarpar yn cael ei ddosbarthu 'pan fo angen' gan Awdurdodau Iechyd ac awdurdodau lleol o Lywodraeth Cymru. Yr unig ffynhonnell ar gyfer Gorchuddion Wyneb o'r safon ofynnol yw Llywodraeth Cymru. Mae gennym gyflenwad cymharol dda o fenig a ffedogau. Nid wyf wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru am unrhyw brinder neu broblemau cyflenwi cenedlaethol. Mae'r polisi o ddosbarthu cyfarpar diogelu yn gyson ar draws Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol.

O'r wythnos diwethaf, rydym wedi cwblhau ffurflen ddyddiol i Lywodraeth Cymru am 3pm. Fodd bynnag, nid oes syniad gennyf beth fydd cyflenwadau'r dyfodol nac ar ba sail y gwnaed y dyraniadau presennol. Mae'r cyfathrebu â'r sawl sy'n dosbarthu'r cyfarpar yn annigonol ac nid oes deialog ynghylch faint sy'n cael ei roi i ni. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn gwybod faint o gyflenwadau i'w dosbarthu i gannoedd o leoliadau ac i filoedd o weithwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae gennym tua 5000 o orchuddion wyneb, sef digon am tua diwrnod pe baem yn eu defnyddio ar draws y sector.

Yn ddiweddarach yr wythnos hon bydd storfa 24/7 newydd yn agor yn y sir a bydd proses ddosbarthu ddeinamig a hyblyg i sicrhau taw'r rheiny sydd eu hangen fwyaf

sy'n ei gael. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o ran cyfathrebu a dosbarthu sydd wedi cael eu nodi.

Yn ganolog i'r ffordd rydym yn rheoli'r risg hon mae pa mor gyfyngedig mae'r cyflenwad yn genedlaethol. Efallai fod yn rhaid i ni ddal yn ôl oherwydd diffyg yn genedlaethol. Fodd bynnag, er mwyn cynghori'r Cyngor ar risg byddai'n rhaid i mi ddeall y rhesymeg/asesiad risg ar gyfer y cyflenwad rydym yn ei gael.

Y cam mwyaf synhwyrol a diogel i'w gymryd i ddiogelu staff a phobl agored i niwed fyddai dosbarthu cyfarpar diogelu i'r holl weithwyr gofal cymunedol i'w ddefnyddio fel mater o drefn mewn gofal personol. Yn ogystal, mae cynyddu'r defnydd mewn lleoliadau preswyl yn allweddol i leihau'r risg o heintiau lluosog. Yn ôl ein hamcangyfrifiad cychwynnol, yn seiliedig ar amrywiaeth o dybiaethau, byddai angen tua 25,000 o orchuddion wyneb yr wythnos arnom ar gyfer y sir. Byddai angen gwneud rhagor o waith ar hyn i brofi'r tybiaethau hyn, ond nid oes gobaith gwneud hynny â'r cyflenwad presennol gan Lywodraeth Cymru.

I gloi - **Ni allaf** roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â'r risg sydd i'r staff neu'r defnyddwyr gwasanaeth os na ddosberthir cyfarpar diogelu i staff gofal cartref ei ddefnyddio ym mhob ymweliad yn y gymuned. Yn ogystal, man lleiaf dylai fod digon o stoc i'w roi i'r holl staff mewn lleoliad preswyl lle mae achosion wedi'u cadarnhau neu'n cael eu hamau.

6. Gwelyau ychwanegol

- Maent yn ganolog i reoli llwybrau gofal o ran paratoi i ateb y galw a ragwelir. Er bod ystod sylweddol o ran modelu lledaeniad y feirws, rydym wedi bod ymhlith yr awdurdodau rhagweithiol yng Nghymru sy'n nodi, dylunio ac adeiladu tri lleoliad ar gyfer y GIG, a fydd yn creu mwy na 600 o welyau ychwanegol i'w trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pythefnos nesaf. Felly, er ein bod yn rhagweld straen sylweddol ar y system a'r risg, rydym eisoes wedi cymryd camau i leihau'r risg hon. Mae cynlluniau i ehangu'r tri safle ymhellach a'n cartrefi gofal yn cael eu hystyried. Amcangyfrifir mai cost hyn o ran gwaith cyfalaf yw £4.7 miliwn. Y gobaith yw y bydd hyn yn llai wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo. Bwriedir defnyddio cronfa ranbarthol Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith hwn, er na chytunwyd yn ffurfiol ar hyn eto.

7. Gair i gloi:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r risgiau sy'n cael eu rheoli'n dda. Bydd unrhyw risgiau sylweddol yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn ofalus ac adroddir yn eu cylch lle bo angen. Ar hyn o bryd, ni allaf roi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol.

- Roedd yr adroddiad gan ymchwilyr gwladol a lleol, a gwyddonwyr yn y ganolfan ar gyfer rheoli ac atal clefydau yn Atlanta.

Atodiad 2 – Gwiriad Sicrwydd AGC Chwefror 2021



Mr Jake Morgan
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Sir Gaerfyrddin
SA31 1JP

Dyddiad: 6 Ebrill 2021

Annwyl Gyfarwyddwr

Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Cyngor Sir Caerfyrddin
Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwiriad sicrwydd ar 1 Chwefror tan 5 Chwefror. Diben y gwiriad sicrwydd hwn oedd adolygu pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, bu i AGC atal ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig Covid-19 er mwyn galluogi awdurdodau lleol a darparwyr i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi i roi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu y gallai fod angen defnyddio gwasanaethau arnynt, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio, a diogelwch a llesiant pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau. Gwnaethom ffocysu ein prif linellau ymholi o fewn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau o ran y rhain: Pobl - Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain yn oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roeddem yn canolbwyntio ar:

1. Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol i gadw'n ddiogel bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, a hyrwyddo eu llesiant yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i atal yr angen i blant gael gofal, ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym lle bo hynny'n ddiogel?
3. Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth, gofal a chefnogaeth yn gynnar a phontio di-dor rhwng gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd?

Crynodeb o'r canfyddiadau a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella:

Pobl - llais a rheolaeth – Gofynnwm: Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau gwybodus, a'u bod yn cadw rheolaeth dros eu bywydau. Gan hefyd, ar yr un pryd, ystyried argymhellion a gofynion Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Yn gyffredinol, gwelsom fod yr awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, bod eu dewisiadau'n cael eu parchu, a bod pobl fel rheol yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt. Mae gan arweinwyr weledigaeth ar ymarfer rheng flaen gyda chynlluniau clir sydd wedi arwain at ymarfer creadigol.

Roedd amgylchiadau pobl yn cael sylw yn y ffeiliau a adolygwyd gennym, a nodwyd elfen bersonol wrth asesu ac mewn cynlluniau gofal a chymorth. Roedd dadansoddiad ymarferwyr yn glir ac yn ffocysu ar gydbwysedd da o wybodaeth oedd yn gymesur ag amgylchiadau. Roedd hyn yn darparu tystiolaeth o ymarferwyr a oedd yn blaenoriaethu ac yn canolbwyntio ar ddeall bywyd i bobl roeddent yn gweithio gyda nhw. Er enghraifft, gwnaethom adolygu ymyriad diogelu lle gwnaeth yr ymarferydd gysylltiadau â'r trydydd sector (Tir Dewi a oedd yn darparu cymorth ar y fferm) a chymorth lleol arall i sicrhau'r canlyniadau a nodwyd gan yr unigolyn.

Roedd pobl yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn ac yn cael eu cefnogi gan eiriolaeth fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cefnogi ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, y canlyniadau maent am eu cael, a sut gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hybu eu llesiant eu hunain. Roedd yr asesiadau galluedd meddyliol roeddem wedi eu hadolygu yn dangos bod systemau a phrosesau pendant ar waith i sicrhau bod galluedd meddyliol pobl yn cael ei asesu'n briodol pan oedd angen. Dywedodd partneriaid iechyd fod cysylltiadau cryf rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd ar gyfer y broses hon.

Gwelsom lawer i enghraifft lle roedd taliadau uniongyrchol yn helpu pobl i fod yn hyblyg o ran y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael. Rhoddwyd cyfle i bobl, gan gynnwys gofalwyr, deilwra a rheoli eu cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Roedd tystiolaeth bod taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio yn ystod y pandemig fel ffordd o ddarparu seibiant amgen. Gwelsom enghreifftiau o

anghenion gofalmwyr yn cael eu hystyried a'u cefnogi ochr yn ochr â'r person y gofalir amdano, ac yn aml roedd y rhain yn cael eu hystyried mewn asesiad cyfannol integredig. Cydnabuwyd bwriad clir i gefnogi gofalmwyr yn ystod y pandemig; dywedodd un gofalwr wrthym, er enghraifft, sut yr oedd yn gallu cynnal cyflogaeth yn ystod y pandemig gyda'r cymorth oedd yn cael ei ddarparu.

Roedd anghenion gofalmwyr hefyd yn cael eu cydnabod a'u diwallu yn y gwasanaethau i blant, ac roedd y cymorth yn amrywio o gymorth ariannol i gymorth ymarferol a therapiwtig; oll ar gael yn ôl yr angen. Gwelsom ymarferwyr yn gweithio i ymgysylltu â rhieni mewn amgylchiadau cymhleth. Lle'r oedd yr awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant, roedd tystiolaeth glir bod rhieni'n gysylltiedig a bod ymdrechion i'w cynnwys yn y penderfyniadau drwy eu presenoldeb mewn cyfarfodydd cyfreithiol, cynadleddau ac adolygiadau.

Gwelsom y 'Cynnig Rhagweithiol' Cymraeg yn cael ei hyrwyddo a chofnod yn cael ei wneud o iaith gyntaf pobl, a gwasanaethau'n cael eu darparu yn newis iaith pobl. Cydnabyddir bod yr iaith a ffefrir yn ffactor allweddol wrth feithrin perthynas effeithiol rhwng pobl ac ymarferwyr. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn adeiladu ar y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y bobl hynny sy'n ddwyieithog ac yn sicrhau y darperir gwasanaeth iddynt yn eu dewis iaith.

Mae daearyddiaeth a demograffeg yr awdurdod lleol yn cynnwys ôl troed mawr gydag amrywiaeth o wasanaethau sy'n cwmpasu ardaloedd poblog iawn a rhai anghysbell dros ben. Roedd awgrym gan rai aelodau o staff y gwasanaethau i oedolion ei bod yn gallu bod yn anodd cadw trywydd ar y trydydd sector cymunedol a'r adnoddau gwirfoddolwyr oedd ar gael, ac roedd gan hyn y potensial i gyfyngu ar yr opsiynau a'r wybodaeth oedd ar gael i bobl. Mae hwn yn faes y dylai'r awdurdod lleol ei adolygu er mwyn sicrhau bod mynediad gan y gweithlu i wybodaeth am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael.

Mae gan yr ymarferwyr barch mawr tuag at y rheolwyr y mae'n hawdd mynd atynt ac sy'n gefnogol. Mae gan yr awdurdod lleol ddiwylliant o gyd-gynhyrchu ac o ganlyniadau personol yn cael eu datblygu gyda phobl a'u hysgogi gan arweinwyr ar draws y sefydliad. Mae gan staff gymhellant a rennir i weithio'n ddi-oed ac yn effeithiol gyda theuluoedd. Mabwysiedir dull clir seiliedig ar gryfderau ar draws y gwasanaeth, sy'n amlwg yn yr hyn a ganfuwyd gennym am sut mae gweithwyr cymdeithasol yn blaenoriaethu cyfathrebu. Roedd y gweithlu'n alluog iawn o ran gwybod sut i weithio gyda phobl, ac mae hyn wedi parhau i'r graddau mwyaf posibl yn ystod y pandemig. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant ar-lein wedi bod ar gael a'i fod yn hygyrch i bartneriaid. O ystyried amgylchiadau'r pandemig, gwelsom fod morâl y staff yn dda iawn.

Atal - Gofynnwm: I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hyrwyddo atal a lleihau'r angen am gymorth cynyddol neu ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Gwelsom ddull integredig cadarnhaol o ymdrin â diwylliant o atal drwy gydweithio, seilweithiau cefnogol ar draws gofal cymdeithasol ac ieuchyd, a systemau cyflawni wedi'u halinio. Roedd hyn yn amlwg mewn dull synhwyrol o ddyrannu adnoddau gan sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir, ac mae hyn yn atal cynnydd mewn angen ac yn gwella ansawdd taith yr unigolyn drwy'r system ieuchyd

a gofal cymdeithasol. Gwelsom fod gwasanaethau fel y tîm Cymorth Iechyd Emosiynol, Ar Ffiniau Gofal a Champau Bach wedi'u cynllunio a'u halinio i ganolbwyntio ar yr un nod. Cofnodwyd deilliannau personol clir ar ffeiliau, a oedd yn arbennig o bwysig mewn sefyllfaoedd cymhleth lle roedd angen cydlynu cymorth i fynd i'r afael ag angen cymwys.

Yn y gwasanaethau i oedolion, mae prosiect Delta / Connect wedi llwyddo i hyrwyddo atal ac ymyrraeth gynnar ac i leihau'r angen am gymorth cynyddol neu ffurfiol gan asiantaethau statudol. Roedd staff a rheolwyr yn deall yr angen i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal a chymorth priodol yn ogystal â phwysigrwydd gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn enwedig felly yn ystod y pandemig. Gwelsom dystiolaeth o ddefnydd gwello dechnoleg i gefnogi diogelwch pobl yn ogystal â lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Darparwyd cyfarpar unigol pwrpasol i gefnogi llesiant pobl, a chai cynlluniau eu monitro drwy alwadau rhagweithiol ac ymateb lles 24/7 sy'n canolbwyntio ar atebion yn y gymuned. Roedd hyn yn galluogi pobl i gael cymorth gartref a phryd bynnag y bo'n bosibl, gan osgoi'r angen i gael eu derbyn i'r ysbyty neu i gael gofal preswyl.

Dywedodd ymarferwyr fod ffocws ar wasanaethau ataliol yn yr awdurdod lleol, a bod adnoddau cymunedol a chamu i lawr ar gael i gefnogi pobl. Mae llawer o'r gwasanaethau heb fod ar gael yn ystod y pandemig, ond clywsom am gymunedau'n dod at ei gilydd ac yn datblygu gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r pandemig buddsoddwyd mewn cefnogi ysbytai aciwt a maes, gyda'r awdurdod lleol yn penodi rheolwr tîm i hwyluso rhyddhau cleifion o ysbytai Cyffredinol Gorllewin Cymru a'r Tywysog Phillip ac i gefnogi ysbytai maes. Ers mis Tachwedd 2020 mae'r swyddogion Llesiant wedi bod yn hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn enwedig pobl nad oes ganddynt anghenion cymwys o ran gofal a chymorth. Mae'r ymatebwyr cymunedol yn wasanaeth arall mae'r awdurdod lleol wedi'i gomisiynu drwy Delta, gan ddefnyddio cyllid Trawsnewid. Mae ymatebwyr cymunedol wedi helpu pobl i aros gartref yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty, ac maent hefyd wedi helpu pobl i setlo nôl gartref ar ôl bod yn yr ysbyty.

Nodwyd diwylliant calonogol o staff yn cydweithio tua'r un nod. Roedd y dull o weithio gyda theuluoedd yn ddealladwy, ac roedd dealltwriaeth gyffredin yn y gwasanaethau plant ac oedolion. Yn y gwasanaethau i blant, trefnwyd cyfarfodydd pod a chawsant eu canmol yn fawr gan yr holl staff fel dull effeithiol a chefnogol iddyn nhw eu hunain a'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cyfuno dull systemig â dull seiliedig ar gryfderau o werthuso gwaith gyda theuluoedd.

Canfu ein hadolygiad o ffeiliau ymyriadau amserol a chymesur i gefnogi annibyniaeth pobl ac i aros gartref gyda theuluoedd pan oedd yn ddiogel iddynt wneud hynny, gan ystyried dymuniadau unigol. Yn y gwasanaethau i blant, roedd risgiau'n cael eu gwerthuso'n ddeinamig i sicrhau bod penderfyniadau i ysgogi symudiadau i ofal yn cael eu gwneud ar adegau pan oedd trothwyon perthnasol yn cael eu cyrraedd. Daethom o hyd i ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethgu; mae hwn yn gyfranogwr pwysig i wella sefydlogrwydd lleoliadau a diogelwch i blant. Roedd cymorth lleoliad yn amlwg yn nifer o'r ffeiliau roeddem wedi eu hadolygu.

Partneriaeth ac Integreiddio - Gofynnwm: I ba raddau gall yr awdurdod lleol sicrhau ei hun y manteisir yn gadarnhaol ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwneud cymaint o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ag y bo modd a sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig a chynaliadwyedd gwasanaethau?

Ar lefel unigol, gwelsom wasanaethau wedi'u cyd-gynhyrchu yn seiliedig ar berthynas gyfartal rhwng ymarferwyr a phobl yr oedd angen gofal a chymorth arnynt a gofawyr yr oedd angen cymorth arnynt. Mesurwyd llwyddiant drwy gasglu gwybodaeth ynghylch a oedd y cymorth yn cyflawni'r pethau oedd yn bwysig i bobl. Roedd tystiolaeth bod ymarferwyr yn datblygu perthynas waith broffesiynol â phobl a oedd yn seiliedig ar gydweithredu a dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n bwysig. Cefnogwyd pobl i nodi'r hyn oedd yn bwysig iddynt a sut y gallent gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Disgrifiwyd y canlyniadau'n glir a nodwyd y camau gweithredu i'w cyflawni.

Cawsom sgysiau gyda'r rhai sy'n gadael gofal am eu profiadau cadarnhaol; yr oedd llawer ohonynt yn dal i gael eu cefnogi gan ofawyr maeth, eraill mewn trefniadau *Pan Fydda i'n Barod*, ac mewn addysg bellach.

Gwelwyd bod partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ac yn darparu dull cynaliadwy integredig o ddiwallu angen a hyrwyddo llesiant yn unol â deddfwriaeth a disgwyliadau. Roedd cyd-gynhyrchu'n digwydd ar raddfa fawr ac roedd ymgysylltu'n digwydd â chymunedau.

Dangosodd yr awdurdod lleol fod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ieuchyd wedi cael eu hyrwyddo'n gadarnhaol ac yn llwyddiannus i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl. Mae gwasanaethau a swyddi integredig wedi darparu'r sylfeini ar gyfer cydweithio ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol. Gwelsom ymarferwyr o wahanol sectorau a gwasanaethau yn cydweithio'n effeithiol. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn cyfrannu at gynlluniau seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n sicrhau'r potensial mwyaf posibl ar gyfer mwy o annibyniaeth. Dywedwyd wrthym y gallai fod anghytuno ynghylch cyllid rhwng pecynnau ieuchyd a gofal cymdeithasol a dehongliadau gwahanol am yr ymarferydd rheoli gofal arweiniol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod hyn wedi cael effaith andwyol ar bobl.

Nododd ein hadolygiad o ffeiliau fod rhannu gwybodaeth yn digwydd, rhoddwyd gwybod i ni fod hyfforddiant rhanbarthol amlasiantaethol yn cael ei gynllunio i hyrwyddo rhannu gwybodaeth ymhellach ar draws asiantaethau. Pan nodwyd bod plant neu oedolion mewn perygl o niwed, trefnwyd cyfarfodydd strategaeth yn amserol a rhannwyd gwybodaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau gan y gweithwyr proffesiynol oedd yn bresennol. Ar gyfer plant ac oedolion, hyd yn oed lle nad oedd penderfyniadau o reidrwydd yn cael eu croesawu, roedd ffocws ar ymgysylltu rhwng ymarferwyr a phobl yn sicrhau bod y rhain yn cael eu derbyn yn ddiwyll a bod pobl yn deall yr hyn a ddisgwyldid ganddynt.

Gwelsom bwyslais cryf ar ddisgyblaethau proffesiynol yn cydweithio; er enghraifft, seicolegydd addysg sy'n rhan o'r Tîm Anabledd 0-25 a swyddi arbenigol eraill yn y tîm hwn sy'n darparu gwybodaeth arbenigol. Cawsom ymatebion cadarnhaol gan staff ynglŷn â'r newidiadau strwythurol i'r Tîm 0-25 a ddigwyddodd y llynedd.

Gwelsom sut roedd staff ysgolion ac addysg yn gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol, a sut roedd athrawon yn darparu amgylchedd meithringar i blant agored i niwed ac yn cyfrannu'n llawn at ofal a chymorth. Gwelsom fod gwasanaethau a gomisiynwyd drwy gydweithwyr addysg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau plant. Yn y gwasanaethau i blant, clywsom am berthynas dda â phediatregwyr ond hefyd am fanteision mwy cyfyngedig rhyngweithio â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Dywedodd darparwyr wrthym am gyfathrebu da a chyfarfodydd cadarnhaol gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol yn ystod y pandemig. Fe ddywedon nhw fod cyfathrebu da a diwylliant o gydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Clywsom sut roedd y berthynas rhwng darparwyr a thimau rheoli gofal wedi'i chryfhau yn ystod y pandemig.

Mae'r ffaith bod llai o gapasiti wedi bod gan rai sefydliadau partner yn ystod y pandemig wedi bod yn her i'r awdurdod, er enghraifft, dywedwyd wrthym fod nyrsys ysgol wedi'u hadleoli a chanfu ymarferwyr awdurdodau lleol fod hyn yn llesteirio'r broses asesu a chynllunio. Oherwydd rheolau llym Covid-19, cyfyng oedd y cymorth y gallai rhai o'r gwasanaethau Trydydd Sector ei gynnig; rhoddodd hyn faich ychwanegol ar ymarferwyr rheng flaen. I'r gwrthwyneb, gwelsom fod cyfarfodydd diogelu wedi parhau drwy gyfnod y pandemig a dywedodd ymarferwyr fod cyfarfodydd o bell wedi arwain at well presenoldeb gan bartneriaid.

Llesiant - Gofynnwm: I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo llesiant, gan sicrhau bod pobl yn cadw'n ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sy'n bwysig iddynt?

Mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalcwyr sydd angen cymorth. Ar lefel unigol, mae hyn wedi cynnwys gofyn beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn, arfer parchus, adeiladu ar ei amgylchiadau a'i alluoedd. Roedd gweithio mewn partneriaeth â phobl i ddatblygu atebion creadigol yn amlwg, gan wella ansawdd y gofal, sicrhau llesiant, ac atal datblygiad anghenion pobl o ran gofal a chymorth. Roedd nodi canlyniadau pobl yn flaenoriaeth yn hytrach na phroses.

Cafwyd ymateb cydweithredol gan bob asiantaeth i'r pandemig gan gynnwys datblygu Polisi Tynhau Canllawiau rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal. Rhoddodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol oruchwyliaeth a sicrwydd mewn perthynas ag arferion diogelu ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Yn ystod y pandemig gwelsom ymdrechion yn cael eu gwneud i gadw mewn cysylltiad â phobl, gydag ymweliadau statudol a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir ond hefyd rhywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb wedi'i risg-asesu fel y bo'n briodol.

Mae'r awdurdod lleol i bob pwrpas wedi hybu llesiant pobl er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth amserol ar gael i gynnal eu hannibyniaeth a'u diogelwch. Roedd hyn yn amlwg gan i ni ganfod bod asesiadau'n cofnodi barn mewn iaith glir gyda phwyslais ar amgylchiadau personol, cryfderau, risg, rhwystrau a'r hyn sydd angen digwydd i gyflawni canlyniadau personol. Roedd prociau Care First yn ddefnyddiol,

ac wedi galluogi ymarferwyr i fynegi'n glir yr hyn roeddent yn poeni amdano. Cafodd yr elfennau mae'r person sy'n ceisio cymorth a diogelwch yn eu dwyn i'r broses eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

Roedd atebion a gyd-luniwyd yn amlwg ac roedd canlyniadau cadarnhaol i bobl oedd yn destun ymyriadau wedi'u diogelu. O'r ffeiliau a adolygwyd gennym, gwelsom ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu wedi'u cynnal yn unol â gofynion statudol. Roedd cyfarfodydd strategaeth a thrafodaethau yn effeithiol ac roedd asiantaethau perthnasol ynddynt. Gwelsom ddadansoddiad da o risg, cynlluniau amddiffyn ar waith a chatau'n cael eu cymryd pan oedd angen. Dywedodd darparwyr a phartneriaid eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm diogelu oedolion, a chafodd eu parodrwydd i gynnig cyngor ac arweiniad ac i helpu i hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol ei gydnabod. Dywedodd cydweithwyr ieched, pan fyddai pethau'n mynd o chwith, byddai gofal cymdeithasol ac ieched yn cydweithio'n agored i nodi cyfleoedd dysgu.

Roedd y cyfarfodydd pod yn y gwasanaethau plant yn amlwg yn hyrwyddo dull cyfannol seiliedig ar gryfderau o weithio gyda theuluoedd. Dangoswyd hyn mewn cofnodion a oedd yn mynegi'n glir gynllunio oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd y cynlluniau'n amlinellu nodau clir y gellir eu cyflawni i ddiogelu plant a gwella eu llesiant drwy ddarparu ystod o wasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Gwnaethom adolygu cynllun a oedd yn cynnwys mesurau risg llym i sicrhau diogelwch plentyn dros gyfnod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau dirybudd dyddiol a oedd yn canolbwyntio ar risg, a hefyd yn dangos ansawdd perthynas waith gadarnhaol rhwng y teulu a'r ymarferydd.

Gwelsom ofal a chymorth yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion newidiol pobl ac asiantaethau'n cyfrannu at y broses adolygu. Roedd cysylltiadau a'r cyfathrebu â phobl yn gydweithredol yn y broses hon. Roedd sgysiau ar sail cryfderau wedi disodli'r asesiadau traddodiadol ar sail anghenion, gyda llais a dewis yn amlwg yn yr arfer a adolygwyd yn y gwasanaethau oedolion a phlant.

Roedd y ffeiliau a adolygwyd gennym yn dangos, er bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gynnal annibyniaeth, fod oedolion hefyd yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau pragmatig ynghylch pryd roedd yr amser yn iawn i symud i gartrefi gofal fel eu bod yn cael eu cefnogi'n fwy diogel.

Yn y gwasanaethau plant, gwelsom gefnogaeth effeithiol gan y grŵp amlasiantaethol ac adolygiadau o safon ar gyfer plant oedd wedi cael profiad o ofal dan arweiniad Swyddogion Adolygu Annibynnol. Roedd ganddynt fecanwaith ar waith i geisio sicrwydd ynghylch llesiant rhwng adolygiadau ffurfiol a chlywed gan blant a'u gofalwyr.

Ar y cyfan roedd y rhai oedd yn gadael gofal yn canmol Cynorthwyyr Personol yn fawr ac yn gwerthfawrogi'r cymorth ymroddgar roeddent yn ei roi. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o adborth nad oedd anghysondeb o ran y cymorth.

Dulliau

- gwnaethom adolygu dogfennau a ddarparwyd cyn ein hymweliad

- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn neu wedi derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys naw oedd yn gadael gofal
- gwnaethom adolygu 30 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal deg cyfweiliad olrhain achosion gydag ymarferwyr, rheolwyr a gofalwyr
- gwnaethom gynnal pedwar grŵp ffocws
- gwnaethom gynnal naw arolwg
- gwnaethom arsylwi ar gyfarfod hyrwyddo gofalwyr

Y camau nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd blaenoriaeth i'w gwella a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad gyda'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Disgwylwn i'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym gael eu cynnwys yng nghroniadau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer y gwiriad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://careinspectorate.wales/how-we-use-yourinformation>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru

Atodiad 3 – Adolygiad Cartrefi Gofal

Adolygiad o Gymorth Cyngor Sir Caerfyrddin i Gartrefi Gofal yn ystod Pandemig Covid-19

Mehefin 2020

Cynnwys

Diben yr adolygiad	45
Amserlen	45
Methodoleg	45
Arweinyddiaeth/cefnogaeth/canllawiau	48
Argymhellion	50
Cyfathrebu	50
Argymhellion	50
Iechyd ac ysbytai	50
Argymhellion	50
Cyfarpar diogelu personol/nwyddau traul	50
Argymhellion	50
Rheoli/atal heintiau	51
Argymhellion	51
Staffio	53
Argymhellion	53
Technoleg gwybodaeth	54
Argymhellion	55
Profi olrhain a diogelu	55
Argymhellion	56
Gwasanaethau plant/iechyd meddwl ac anableddau dysgu	56
Argymhellion	57
Teuluoedd/frindiau/ymweliadau	57
Argymhellion.	57

Diben Yr Adolygiad

Gofynnodd Cyngor Sir Caerfyrddin am adolygiad annibynnol o'i ddull o gefnogi Cartrefi Gofal yn ystod pandemig Covid-19, gyda golwg ar greu sail dystiolaeth o'r dull a gymerwyd a nodi unrhyw wersi a ddysgwyd y mae angen mynd i'r afael â hwy neu eu gweithredu wrth symud ymlaen.

Nid oes gennym ddarlun clir o hyd gan fod pwysau sylweddol ar gartrefi adeg llunio'r adroddiad hwn wrth i ail/trydedd don COVID gael effaith sylweddol ar ymarferoldeb cartrefi. Er bod heriau sylweddol ar draws pob sector yn genedlaethol rhwng mis Mawrth a mis Mai, y diben yw peidio â rhoi bai ond sicrhau bod gwersi cynnar yn cael eu dysgu a bod meysydd i ymchwilio ymhellach iddynt yn cael eu nodi.

Amserlen

Y cyfnod sy'n cael ei ystyried yw hwnnw o 1 Mawrth, cyn y cyfyngiadau symud, tan 31 Awst 2020, pryd codwyd y cyfyngiadau symud a llaciwyd y rheoliadau.

Rwyf hefyd wedi cyfeirio at y cyfnod presennol o 31 Awst hyd at fis Rhagfyr gan ei fod yn cael effaith ar ymatebion wrth i ail don y pandemig gyrraedd.

Methodoleg:

Cyfweliadau: Cafodd 16 o staff ar draws yr Awdurdod Lleol, partneriaid Comisiynu ac lechyd eu cyfweld yn unigol drwy Teams. Mynychais hefyd 2 gyfarfod gydag Uwch-reolwyr, unwaith eto drwy Teams. Nid oedd modd cyfweld nifer fach o staff oherwydd pwysau ac ymrwymadau gwaith.

Dosbarthwyd Arolwg Snap i'r holl Gartrefi Gofal yn y Gwasanaethau Oedolion ac i 3 sefydliad yn y sector Gwasanaethau Plant.

Cafwyd ymateb da.

Cysylltwyd â **41** Cartref Gofal i Oedolion a 3 Lleoliad Preswyl i Blant.

Cwblhawyd yr arolwg gan **30** o sefydliadau sef cyfradd ymateb o 68%

Cysylltwyd â phob un o'r 6 lleoliad Cartref Gofal lle bu achosion o Covid-19 i gael rhagor o wybodaeth am y broses gefnogi. Fe wnaeth 3 ymateb a chael cyfweiliad drwy Teams.

Roedd gen i fynediad drwy Ffeiliau Teams i'r Polisiâu/Gweithdrefnau niferus a'r prosesau a fabwysiadwyd i ymdrin â Covid-19. Dogfen allweddol y cyfeiriais ati oedd **Polisi Rheoli Uwchgyfeirio a Risg v1.5 Cartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl, Byw â Chymorth a Gofal Ychwanegol**; bellach cytunwyd ar y ddogfen hon, a ddatblygwyd i ddechrau yn Sir Gaerfyrddin, ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r 3 Awdurdod Lleol oedd yn bartneriaid.

Cefais hefyd olwg ar Gronoleg Cyfathrebu â Chartrefi Gofal a oedd yn manylu ar y wybodaeth, y cymorth a'r arweiniad a gynigir i'r sector. Mabwysiadais fethodoleg *Signs of Safety* wrth lunio'r cwestiynau. Beth weithiodd yn dda, beth na weithiodd gystal a beth oedd/yw'r heriau.

Dechreuodd yr ymarfer cwrpasu a'r trafodaethau ar 22 Hydref, a dechreuodd yr holiaduron a'r cyfweiliadau ar 10 Tachwedd a chael eu cynnal drwy fis Tachwedd a dechrau mis Rhagfyr. Cafodd y cyfweiliad diwethaf ei gynnal ar 10 Rhagfyr.

Y prif feysydd y rhoddwyd sylw iddynt oedd:

- Darparu cyngor ac arweiniad cyffredinol i gartrefi gofal annibynnol a rhai'r Awdurdod Lleol.
- Atal a Rheoli Heintiau.
- Canfod a chyflenwi PPE.
- Hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty i gartrefi gofal.
- Rheoli achosion mewn cartrefi gofal, gan gynnwys asiantaethau eraill gan gynnwys gweithwyr meddygol proffesiynol.
- Nodi, rheoli ac uwchgyfeirio pryderon diogelu.
- Rheoli Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Profi mewn cartrefi gofal.
- Cymorth cyffredinol i gartrefi gofal, gan gynnwys cymorth i'r gweithlu a chymorth ariannol.
- Cymorth cyffredinol i drigolion a theuluoedd cartrefi gofal.
- Gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda, o ran yr uchod i gyd.

Arweinyddiaeth ynghylch yr uchod i gyd

Arweinyddiaeth/Cymorth/Canllawiau

Dengys adborth cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod Lleol o'r Arolwg Snap a'r cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda Staff ar draws sector Iechyd a Gofal yr Awdurdod Lleol, fod arweinyddiaeth gref a phendant gan y Cyngor Sir. Roedd hyn yn wir o'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Statudol i bob rhan o'r sefydliad. Ceir tystiolaeth o effeithiolrwydd strwythur y Grŵp Rheoli Aur/Arian/Efydd, ac roedd y staff yn glir lle'r

oeddent yn ffitio i mewn i'r strwythur a'r rolau oedd ganddynt. Mae wedi cael ei ddweud nifer fawr o weithiau mewn cyfweiliadau ac arolygon fod y gallu i wneud penderfyniadau ystwyth yn amlwg, gan ymateb yn gyflym mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar atebion, a bod staff yn rhydd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn gallu datrys problemau.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r aelod Arweiniol yn dangos cryn gefnogaeth i'r sector, ac, yn benodol, siarad o blaid cefnogi trefn genedlaethol mewn perthynas â chyflenwi a phrofi cyfarpar diogelu personol gyda gweinidogion yn ystod dyddiau cynnar y pandemig

Roedd effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol yn amlwg o'r cychwyn cyntaf i'r holl staff a threfnwyd cyfarfodydd SITREP dyddiol. Cyfarfu Uwch-reolwyr CSC ddwywaith y dydd a gwelwyd y patrwm hwn ymhellach i lawr y strwythur rheoli er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu briffio'n llawn. Cafwyd trywydd archwilio effeithiol o ran gwneud penderfyniadau ac mae polisïau wedi'u haddasu wrth i'r sefyllfa newid.

Mae diogelu wedi parhau i fod yn ystyriaeth yn ystod pandemig Covid. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi arwain ar y trafodaethau a'r ystyriaethau ynghylch diogelu ar adeg eithriadol o anodd i'r sector Gofal. Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol i ystyried y gofynion diogelu, gan roi pwyslais ar Covid. Mae trafodaethau heriol wedi bod ynghylch materion diogelu, pryd mae'r sefydliad yn dechrau pryderu am arferion ac ati, ac mae'r rhain wedi cael sylw ym mhob cyfarfod o'r uwch-reolwyr. Roedd cyfarfodydd Tynhau Canllawiau Cartrefi Gofal yn ystyried yr hyn yr oedd ei angen yn y cartrefi gofal i gefnogi a hyrwyddo arfer diogel boed hynny'n staffio/cyfarpar/cymorth neu gyngor. Mae'r pryderon diogelu a ddaeth i'r amlwg wedi bod ynghylch arferion gwael lle na ddilynwyd prosesau'n gywir.

Ni wnaeth Deddf Coronafeirws 2020 unrhyw newidiadau i berthnasedd na chymhwysedd Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Fodd bynnag, roedd yn golygu bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd roedd yn mynd ati i gydymffurfio â'r gyfraith. Gweithiodd Sir Gaerfyrddin gyda'i chydweithwyr rhanbarthol i lunio canllawiau i staff. Gwnaed gwaith i adolygu asesiadau a'r broses adolygu. Trefnwyd

cyfarfodydd Skype a Teams, er iddynt godi cwestiynau ynghylch annibyniaeth ac effeithiolrwydd y broses. Anfonodd Sir Gaerfyrddin ei Chanllawiau at Lywodraeth Cymru i'w hystyried a chawsant eu canmol. Mae'r Grŵp Rhanbarthol wedi parhau i gwrdd ac ystyried a yw'r polisi'n dal i fod yn berthnasol ac a yw egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael eu dilyn o hyd.

Croesawyd hefyd sefydlu Tîm Comisiynu pwrpasol a oedd ar gael 24/7 i gynghori a rhoi cymorth. Roedd yn darparu dull ymateb, adrodd a phenderfynu/cyflawni ar gyfer y sector Gofal a oedd yn hanfodol bwysig. Roedd yr Awdurdod Lleol hefyd ar flaen y gad o ran cydnabod effaith bosibl Covid-19 ar sefydlogrwydd y farchnad a chyflwynodd daliadau i helpu i dalu am fylchau a chostau ychwanegol fel glanhau trylwyr a chostau gofal ychwanegol yn y sector. Cafodd cartrefi yr oedd achosion

positif ynddynt gynnig cymorth a chefnogaeth ychwanegol ac roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Hefyd mabwysiadodd Cyngor Sir Caerfyrddin Bolisi Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty yn Ddiogel i gefnogi'r sector Cartrefi Gofal, gan fynnu bod cleifion yn cael profion Covid cyn cael eu rhyddhau. Proseswyd yr holl geisiadau am ryddhau drwy'r Tîm Comisiynu i helpu i leddfu'r baich ar y Cartrefi Gofal. Ymddengys nad yw cydweithwyr ieuchyd yn yr Ysbyty wedi deall y broses hon gystal ac mae'n rhywbeth y bydd angen mynd i'r afael ag ef ar y cyd wrth symud ymlaen.

Roedd y ffocws i raddau helaeth ar gadw preswylwyr yn ddiogel ac ar eu hanghenion gofal. Aeth staff ar draws yr Awdurdod Lleol ati'n ddi-oed i gydweithio ac mae'r teimlad hwnnw o undod a chefnogaeth wedi para; cafodd staff eu hadleoli i rolau newydd i gefnogi ymdrechion ar draws y gwasanaethau. Mae nifer o heriau wedi dod i'r amlwg y bydd angen rhoi sylw iddynt yn y tymor hwy. Mae'r rhan fwyaf o'r staff y siaradwyd â nhw yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i hyd yn oed ystyried strategaeth ymadael eto, gan deimlo ein bod yn llygad y storm o hyd wrth i'r ail don daro ein cymunedau.

Ataliwyd y gwaith o fonitro'r Cartrefi Gofal yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd cyfyngiadau ar ymwelwyr â'r cartrefi gofal. Cafodd staff ieuchyd eu hadleoli i rolau ymateb eraill i Covid, ac mae hyn yn parhau. Dywedodd staff ieuchyd, pan aethant yn ôl i gynnal profion Profi Olrhain Diogelu torfol, eu bod yn gallu cael rhywfaint o oruchwyliaeth. Mae'r Tîm Comisiynu wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar Ymateb Covid hefyd. Roedd CSC ac ieuchyd yn ddibynnol felly ar unrhyw weithwyr proffesiynol eraill a aeth i mewn i'r cartrefi i fod yn llygaid a chlustiau ac i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae AGC/AGIC wedi cynnal eu hymweliadau'n rhithwir. Nid oes dim pryderon wedi cael eu hadrodd.

Mae pryderon am effaith cyni cyllidol yn y dyfodol ar y Sector Gofal ac ieuchyd a Gofal Cymdeithasol yn gyffredinol ar ôl ymateb y pandemig. Gweithredodd Sir Gaerfyrddin cyn y cytunwyd ar gyllid cenedlaethol, gan gymryd risg, a chyflwyno fformiwla a fabwysiadwyd i raddau helaeth wedyn gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid cenedlaethol dilynol sy'n darparu taliadau ychwanegol a thaliadau am lefydd gwag wedi bod yn effeithiol o ran sefydlogi'r sector yn ariannol. Mae'r sector Gofal wedi dibynnu ar y cymorth hwn i'w gynnal.


Argymhellion

Angen i'r Strategaeth Ymadael fod yr un mor gadarn ac wedi'i chynllunio'r un mor dda â'r ymateb i'r Pandemig - bydd yr adferiad yn cymryd mwy o amser

Ystyried Adolygiad o'r ymateb Diogelu yn ystod Pandemig Covid, o bosibl fel Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gan ganolbwyntio ar beth weithiodd yn dda/beth fu'r dysgu

Adeiladu ar y gwaith partneriaeth estynedig a'i gynnal, gan gadw'r gallu i wneud penderfyniadau ystwyth pragmatig, gyda llai o fiwrocratiaeth.

Marwoldeb mewn Lleoliadau Preswyl a Gomisiynwyd ar gyfer Pobl Hŷn



	2017	2018	2019	2020
Ionawr	37	49	30	47
Chwefror	32	36	30	40
Mawrth	36	39	33	34
Ebrill	21	24	24	52
Mai	21	34	25	44
Mehefin	13	27	23	29
Gorffennaf	24	19	17	26
Awst	32	14	16	26
Medi	25	17	28	25
Hydref	32	25	29	30
Tachwedd	22	24	29	28
Rhagfyr	36	32	40	

Cafwyd her sylweddol rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020 wrth i ni weld cynnydd penodol yng nghyfraddau marwoldeb preswylwyr. Effeithiwyd yn drasig ar nifer fach o gartrefi wrth i nifer sylweddol o breswylwyr farw o fewn 28 diwrnod wedi cael prawf positif, a bu i waith pellach ynghylch sut digwyddodd hynny wella gofal. Mynd i'r afael â hyn a diogelu preswylwyr yw'r flaenoriaeth fwyaf wedi bod ar draws cartrefi, maes iechyd a'r awdurdod lleol. Mae'r gwaith hwn ym maes rheoli heintiau, ymyrryd mewn cartrefi, profi, trin, ymyrraeth a gofal wedi gwella'r sefyllfa'n sylweddol wrth i ni weld cyfradd farwoldeb is mewn cartrefi na chyn COVID, er gwaethaf cynnydd yn nifer y cartrefi yr effeithir arnynt.

Cyfathrebu

Ym mis Mawrth ac Ebrill 2020 ystyriwyd yn eang bod cyfathrebu a chanllawiau yn anghyson yn genedlaethol o ran cyflenwi a defnyddio cyfarpar diogelu personol ac o ran derbyniadau. Roedd her sylweddol i bob cartref gofal gan fod y dystiolaeth o'r hyn oedd ei angen i ddiogelu staff a phreswylwyr yn rhedeg o flaen cyhoeddi'r canllawiau cenedlaethol priodol. Golygai hyn nad oedd awdurdodau/comisiynwyr lleol wedi gallu bod yn glir nac yn gyson gyda chartrefi. Ar y dechrau fel hyn, mynegwyd cryn bryder gyda Llywodraeth Cymru ynghylch pa mor agored i niwed oedd y staff gofal a'r preswylwyr lle nad oedd y canllawiau a'r cyflenwad yn ddigonol. Er i rai Cartrefi Gofal bwysleisio bod gwybodaeth a chanllawiau'n rhy araf yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig (gan adael rhai cartrefi gofal yn teimlo braidd ar gyfeiliorn ac wedi'u drysu) maent yn cydnabod bod hon yn sefyllfa hollol newydd i bawb.

Roedd yr holl staff yn sylweddoli bod yr holl wybodaeth a ddeilliai o wahanol ffynonellau, y canllawiau newidiol, a'r cyflymder roedd y wybodaeth yn dod i law yn her sylweddol yn genedlaethol. Mae wedi cael ei ddweud mewn sawl cyfweiliad, pan gafodd CSC afael go iawn ar y sefyllfa a'r wybodaeth oedd yn dod oddi wrth y llywodraeth ganolog, roedd y gefnogaeth yn amlwg ac yn effeithiol.

Fel y nodwyd uchod, barnwyd bod y cyfathrebu oedd yn digwydd â'r sector gofal yn gadarnhaol. Ar ddechrau'r cyfnod, gellid bod wedi gwneud gwelliannau o ran trefnu cysylltiadau ffôn. Soniodd rheolwyr am alwadau ffôn rhyw 5/6 gwaith y dydd, yn gofyn am ddata/gwybodaeth debyg pan oeddent dan bwysau. Teimlai rheolwyr wrthdaro rhwng gorfod delio â materion gweinyddol pan oedd eu hangen i helpu â dyletswyddau gofalu.

Argymhellion

Ystyried cael Tîm Cyfathrebu Rhanbarthol sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol ac Iechyd i lunio cyfathrebu clir ar y cyd o un ffynhonnell

Iechyd Ac Ysbytai

Mae rôl yr Ymgynghorydd Eiddilwch wrth gefnogi Cartrefi Gofal oedd ag achosion o Covid yn ystod yr wythnosau cynnar wedi cael ei chanmol yn benodol. Dywed cydweithwyr iechyd fod y gallu cyflym i wneud penderfyniadau ar ryddhau cleifion o'r ysbyty heb boeni'n ormodol am gyllid/rhannu cyllid hefyd yn hollbwysig. Roedd gwell cydgysylltu ac eglurder ar rolau rhwng yr ymgynghorydd hwn a meddygon teulu yn help gan fod rhywfaint o risg o ddiffyg cydgysylltu clinigol.

Cafwyd ymatebion amrywiol o ran cymorth meddygon teulu i'r cartrefi Gofal yn ystod y pandemig; dywedodd rhai Rheolwyr fod practisau meddygon teulu yn amharod i fynychu'r Cartrefi Gofal; teimlai eraill fod y gwasanaeth yn gefnogol.

Roedd rhai practisau'n rheoli eu rhestrau cleifion yn rhithwir dros y ffôn, ac roedd meddygfeydd wythnosol yn cael eu cynnal o bell.

Un maes gwerth ei nodi a godwyd gan nifer o staff oedd ffurflenni DNACPR. Teimlai rhai Cartrefi Gofal fod dull "cyffredinol" wedi'i ddefnyddio o ran eu preswylwyr ac ers hynny maent wedi dileu'r DNACPR ar gais y preswyllydd. Roedd pryder hefyd gan Reolwr y siaradwyd ag ef am lythyr gan glwstwr meddygon teulu yn gynnar iawn a ddywedai na fyddai preswylwyr yn cael eu trin yn rhagweithiol. Achosodd hyn gryn ofid i breswylwyr, teuluoedd a staff. Rwy'n credu bod y mater wedi cael ei godi gyda'r Bwrdd Iechyd a bod sylw wedi cael ei roi iddo'n syth bin.

Mae'r Polisi Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty hefyd wedi bod yn bwnc llosg i'r Tîm Cartrefi Gofal a Chomisiynu ac wedi ennyn cryn ymateb. Yr hyn sy'n amlwg yw ei bod yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ac weithiau, hyd yn oed, cydnabyddiaeth o fodolaeth y polisi gan staff Ysbytai ar wardiau. Mae'r Cartrefi Gofal wedi teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn yn ystod y pandemig gyda'r Tîm Comisiynu yn cydlyn ac yn cytuno ar ryddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd angen monitro hyn yn ofalus wrth i ail don y pandemig gyrraedd ac wrth i'r pwysau ar Ysbytai a Chartrefi Gofal gynyddu o achos pwysau staffio neu o safbwynt achosion Covid positif.

Nododd nifer o'r cartrefi gofal hefyd nad ydynt wedi gallu cael ymweliadau Therapi Galwedigaethol/Ffisiotherapi neu Ddeietegydd i'r Cartrefi Gofal ers i'r cyfyngiadau symud gael eu codi ym mis Awst.

Argymhellion

Ystyried cynnig hyfforddiant ar y cyd â chlystyrau meddygon teulu i reoli disgwyliadau Cartrefi Gofal o ran y cymorth sydd ei angen arnynt

Adolygu prosesau a gweithdrefnau DNACPR a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag anghenion a budd gorau'r preswylwyr wrth wraidd y penderfyniad.

Trafodaeth rhwng yr Awdurdod Lleol ac Iechyd ynghylch y Polisi Rhyddhau Cleifion yn Ddiogel a sut y gellir helpu Cartrefi Gofal i deimlo'n hyderus ac ymddiried yn asesiad yr Ysbyty o gleifion yn y dyfodol

PPE/Nwyddau Traul

Roedd gan Gyngor Sir Caerfyrddin amcanion clir o ran yr hyn roedd yn ceisio'i gyflawni ar gyfer y Cartrefi Gofal a'r sector gofal ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd tystiolaeth gan y Tîm yn awgrymu bod y Cyngor wedi cyflawni hyn o'r cychwyn cyntaf. Cyn bodolaeth siop ganolog wedi'i chyflenwi gan Lywodraeth Cymru, rheolodd y Cyngor Sir ei gyflenwad yn dda, a bu bron iddo redeg allan, ond ni wnaeth hynny ddigwydd. Mae tystiolaeth bod staff ar secondiad wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod yr holl Gartrefi Gofal yn cael eu cyflenwi. Nid oedd yr un cartref gofal yn brin o gyflenwad wedi i ganllawiau cenedlaethol effeithiol gael eu sefydlu.

Achosodd y canllawiau newidiol orbryder, gwrthdaro, ansicrwydd a gofid yn ystod yr wythnosau cynnar. Treuliwyd cryn amser yn wleidyddol ac ar y lefelau uchaf yn ceisio datrys yr heriau yn y maes hwn. Dywed uwch-swyddogion y Cyngor fod cefnogaeth wleidyddol sylweddol gan yr Aelod Arweiniol, yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr wrth geisio datrys y problemau dyrys iawn hyn. Ers i'r gwasanaethau a rennir gael eu trefnu a'u rhoi ar waith, nid yw'r cyflenwad PPE wedi bod yn broblem. Mae'r Tîm PPE wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Comisiynu, Iechyd yr Amgylchedd a Rheoli Heintiau. Mae'r Tîm wedi modelu'r galw ar draws y Cartrefi Gofal, gan ystyried sawl senario, ac wedi sicrhau bod cyflenwad cyson o PPE yn cael ei gynnal. Cafwyd cefnogaeth ragweithiol gan bob rhan o'r Cyngor i ganfod safleoedd storio addas. Mae dosbarthu PPE wedi bod yn effeithiol ac yn ymatebol.

Mae Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi ategu gwaith y Tîm Nyrsio Rheoli Heintiau drwy ddarparu hyfforddiant ar-lein i staff ar y gweithdrefnau "*donning / doffing*" a chyfarwyddiadau clir ar sut i atal croeshalogi. Roedd hon yn enghraifft dda o gydweithio effeithiol wrth i'r bwrdd iechyd ymateb i'r sector gofal.

Anfonir arolwg wythnosol i sefydlu llinell sylfaen o'r stociau PPE a gedwir ym mhob Cartref Gofal. Lle mae cartrefi gofal wedi profi'n bositif am Covid - mae'r tîm PPE wedi cyfrifo nifer y newidiadau tebygol wrth nifer yr ymyriadau sy'n debygol o fod yn ofynnol ac wedi anfon pecynnau *Booster* allan.

Yr her wrth i ni ddod allan o Bandemig Covid fydd sicrhau ein bod yn parhau i gynnal arferion a phrotocolau PPE da. Bydd her hefyd i Gartrefi Gofal yn y sector preifat sy'n cael PPE ar hyn o bryd oddi wrth gyflenwad canolog Llywodraeth Cymru; unwaith eto, rhywbeth i'w ystyried yn y strategaeth ymadael o ran costau ychwanegol a strwythurau pennu ffioedd.

Argymhellion

Awdurdodau Lleol i ystyried dal stoc ddigonol o PPE/nwyddau traul (fel biniau gwastraff penodedig) y gellid eu defnyddio'n gyflym pe bai unrhyw achosion heintus yn y dyfodol. I'w gynnwys mewn unrhyw Gynllun Argyfwng yn y dyfodol.

Rheoli/Atal Heintiau

Mae hwn wedi bod yn wasanaeth rheng flaen sydd wedi cael ei ganmol gan bawb. Mae'r Tîm wedi bod mewn cysylltiad uniongyrchol â'r Cartrefi Gofal, gan gynnig cymorth, cyngor ac arweiniad. Mae'r Tîm wedi sicrhau ei fod ar gael bob dydd a nos i gefnogi staff. Mae mewnbyn y Tîm wedi bod yn hollbwysig o ran sicrhau bod y Cartrefi Gofal wedi ymateb gystal wrth liniaru'r risgiau i'r graddau mwyaf posibl.

Roedd mwy o ran gan Iechyd yr Amgylchedd o fis Mai ymlaen er mwyn cefnogi'r ymdrech Rheoli Heintiau. Datblygodd Iechyd yr Amgylchedd bartneriaeth waith effeithiol gyda Rheoli Heintiau. Roedd heriau i'r Tîm o ran cynllun rhai o'r Cartrefi Gofal; mae llawer ohonynt mewn adeiladau hŷn, heb gael eu hadeiladu'n bwrpasol. Roedd rhannu'r gofal roedd preswylwyr yn ei gael mewn cartrefi oedd ag achosion positif o Covid wedi dod yn her logistaidd. Fe'i gwnaed yn anoddach mewn Cartrefi

Gofal lle'r oedd gennych breswylwyr oedd yn "cerdded gyda phwrpas". Roedd symud preswylwyr o'u hystafelloedd hefyd yn her, gan adael eu heitemau personol a chysur eu hystafelloedd eu hunain.

Hefyd daeth yr angen i lanhau'n drylwyr y Cartrefi Gofal oedd ag achosion positif yn broblem, gan ddangos sut roedd Gofalwyr, mewn rhai cartrefi, yn lanhau'n yn ogystal. Bu cryn dipyn o ddysgu yn y maes hwn ar effaith rheoli heintiau'n dda.

Yr her fydd sicrhau bod Rheoli Heintiau'n dal i fod yn flaenoriaeth a bod pwysigrwydd hynny'n cael ei gynnal yn y dyfodol.

Argymhellion

Comisiynu ac lechyd yr ALI i weithio gyda'r sector Cartrefi Gofal yn y dyfodol i sicrhau bod polisiau, gweithdrefnau, cyngor, hyfforddiant ac arweiniad clir ynghylch PPE a Rheoli Heintiau yn parhau i fod yn ganolog i arferion o ansawdd da mewn Cartrefi Gofal/wrth ddarparu Gofal Cartref

Sefydlu ac ariannu rôl lechyd yr Amgylchedd o ran Rheoli Heintiau fel swyddogaeth barhaol

Staffio

Y flaenoriaeth gyntaf yw cydnabod a chanmol ymroddiad staff y Cartrefi Gofal a'u Rheolwyr - maent wedi mynd tu hwnt i'r hyn a nodwyd ar unrhyw ddisgrifiad swydd. Maent wedi bod yn onest ynghylch eu hofnau, eu pryderon a'u brwydrau; maent wedi parhau i ddarparu gofal o safon mewn ffordd dosturiol gariadus i bobl nad ydynt wedi gallu gweld eu hanwyliaid. Maent wedi eistedd gyda phreswylwyr oedd ar eu gwely angau, gan sicrhau nad oeddent yn unig wrth fynd o'r byd hwn. Maent wedi dangos agwedd gadarnhaol ac wedi cefnogi ei gilydd.

Mae staff eraill yr Awdurdod Lleol wedi dewis cael eu hadleoli yn y sector gofal ac wedi darparu cymorth amhrisiadwy. Mae pob un ohonynt wedi addasu i'r hyn a ofynnwyd ohonynt, boed hynny'n newid patrymau sifft i weithio sifftiau ychwanegol. Mae llawer wedi cyflawni dyletswyddau hollol wahanol i'r hyn maent yn arfer ei wneud o ddydd i ddydd.

Dywedodd llawer o Gartrefi Gofal fod yr Awdurdod Lleol wedi rhoi cefnogaeth yn gyflym pan oedd problemau staffio. Roedd yn edrych yn debyg bod mwy o heriau yn y Cartrefi Nyrsio lle'r oedd yn anos cael Nyrsys cymwysedig. Roedd cyfraddau asiantaethau *Bank* yn £3,000 fesul sifft ac roedd y gost hon yn afresymol i'r rhan fwyaf o gartrefi Nyrsio.

Nodwyd hefyd bod staff Cartrefi Gofal yn cael eu galw i gynorthwyo ym mhrosesau asesu ac adolygu preswylwyr mewn ffordd wahanol i o'r blaen. Mae Gweithwyr Cymdeithasol ac Aseswyr Nyrsio yn asesu ac yn adolygu yn rhithwir sy'n golygu bod angen i aelod o staff y Cartref Gofal roi diweddariadau a gwybodaeth iddynt o'r

ffeiliau a'r nodiadau gofal. Cyn Covid byddai hyn wedi cael ei wneud gan y Gweithiwr Cymdeithasol/Asesydd Nyrsio wrth ymweld â'r cartref. Mae rheolwyr yn ei gweld hi'n anodd cefnogi hyn pan nad yw niferoedd staffio wedi'u cynyddu i gefnogi'r gofynion ychwanegol.

Mae problem iechyd meddwl ehangach i'w hystyried wrth edrych ar y strategaeth ymadael. Mae staff, yn enwedig y rhai mewn cartrefi lle mae Covid, wedi bod trwy lawer yn emosiynol, ac mae gweld cynifer o farwolaethau mewn cyfnod byr wedi cael effaith ddofn ar lawer ohonynt. Mae effaith Covid a'r ofn mae wedi ei greu wedi bod yn real iawn i bawb.

O safbwynt ehangach yr Awdurdod Lleol, mae'r holl staff y siaradwyd â nhw wedi cydnabod bod y cysyniad o wythnos waith 5 diwrnod wedi diflannu pan drawodd y pandemig. Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod staff ar gael 7 diwrnod yr wythnos ers cyfnod cynnar iawn. Cafwyd problemau cychwynnol pan nad oedd hyd a lled y pandemig a'i effaith yn hysbys, e.e. gallu cael gafael ar gyflenwadau. Pan ddeallwyd maint y broblem, ymatebodd yr Awdurdod Lleol yn effeithiol.

Mae mwy o synnwyr y gallai staffio fod yn broblem yn ystod yr ail don hon. Gan fod rhagor o bobl yn cael eu profi, mae cynnydd yn y niferoedd sy'n gorfod hunanynysu. Hefyd, mae cynnydd mewn trosglwyddo cymunedol a fydd yn anochel yn rhoi pwysau ar wasanaethau. Yn ogystal â hyn, mae Rheolwyr yn sôn am gynnydd mewn gorbryder/blinder oherwydd Covid ymhlith y staff wrth i'r ail don hon nesáu. Roedd pobl yn rhedeg ar adrenalin yn ystod y don gyntaf.

Argymhellion

Dylid Ystyried Rhoi cymorth a chwnsela i staff

Arwain ar y ddadl fod iechyd meddwl mor bwysig ag iechyd corfforol i weithwyr y sector Gofal Cartref gan y bydd hyn yn codi ei ben ar ôl y pandemig yn ddiamheuaeth

Rhoddir ystyriaeth i greu capasiti iechyd meddwl ychwanegol fel rhan o strategaeth ymadael COVID.

Technoleg Gwybodaeth

O safbwynt Cartrefi Gofal un o'r prif feysydd sy'n peri pryder yw'r diffyg mynediad i'r rhyngwrdd yn y cartrefi. Mae'n ymddangos mai'r un yw'r sefyllfa ar y cyfan ledled yr Awdurdod Lleol a'r sector Preifat.

Mae gliniaduron gan Reolwyr Cartrefi Gofal ac maent wedi gallu mynychu Cyfarfodydd Teams ac ati gyda'u rheolwr llinell a hefyd gyda chyd-reolwyr. Barnwyd bod hon yn ffordd ddefnyddiol iawn o gael cymorth, ac mae'r arfer o rannu gwybodaeth a chynnal cyfarfodydd wedi parhau ar gais y Rheolwyr.

Roedd llawer o'r gwaith yn y cartrefi gofal ar bapur ac wrth iddynt geisio mynd i'r afael â hyn drwy geisio mabwysiadu system ddi-bapur, cawsant eu llesteirio gan y

diffyg offer oedd ar gael. Yng nghartrefi'r Awdurdod Lleol nid oes gliniaduron ar gael i'r staff uwch na'r gofawyr. Nid yw'r gofawyr eu hunain wedi cael cyfeiriad e-bost awdurdod lleol. Achosodd hyn broblemau pan oedd staff yn hunanynysu, oherwydd gallent fod yn gweithio o gartref yn llunio neu'n diweddarau cynlluniau gofal. Roedd rhwystredigaeth y Rheolwyr yn amlwg.

Roedd cysylltedd Wi-Fi yn broblem y bu i'r rhan fwyaf o'r Cartrefi Gofal dynnu sylw ati. Roedd sicrhau y gallai perthnasau aros mewn cysylltiad rhithwir â theuluoedd a ffrindiau yn ystod y cyfyngiadau symud yn broblem. Roedd y cyfarpar gan sawl cartref ond y gallu i'w ddefnyddio oedd y broblem, oherwydd diffyg mynediad i'r rhyngwrdd, neu byddai'r signal yn diflannu ar ganol sgwrs.

Roedd problem hefyd yn y sector preifat gan i breswylwyr gael gwybod y byddai'n rhaid iddynt dalu os oeddent am gael mynediad i'r rhyngwrdd. Teimlai llawer o Reolwyr y dylai mynediad i'r rhyngwrdd fod ar gael yn ddidrafferth, yn enwedig o gofio bod yn rhaid defnyddio technoleg.

Argymhellion

Ystyried cyflwyno rhaglen buddsoddi yn seilwaith TG Cartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol, gan alluogi pob aelod o staff i gael mynediad at negeseuon e-bost gwaith, gwybodaeth a roddir yn ddigidol, a chael mynediad at hyfforddiant ar-lein ac ati, fel y rhan fwyaf o weithlu'r Cyngor.

Ymarfer cwrmpasu a rhoi ystyriaeth debyg i wneud hynny yng Nghartrefi Gofal y sector annibynnol, er y gallai datrys hynny olygu bod angen cael cymorth Llywodraeth Cymru i ariannu cynllun o'r fath.

Ystyried mynediad Wi-Fi a chynyddu'r defnydd o dechnoleg glyfar i wella bywydau pobl a sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl mewn lleoliadau gofal, a chynnwys hyn fel rhan o'r gofynion/trafodaethau cytundebol. Ystyried mynediad i'r Rhyngwrdd/TG wrth lunio cynlluniau gofal, sut bydd darpar breswylwyr yn cynnal cysylltiad â pherthnasau a chyfeillion

Profi, Olrhain A Diogelu

Ar ôl i'r gwasanaeth ddod dros y problemau cychwynnol, mae'r cydlynu wedi gweithio'n dda. Mae camau wedi'u rhoi ar waith yn ddi-oed mewn cartrefi gofal, a chyflwynwyd galwadau rhagweithiol a chynghor a chanllawiau.

Mae pob cartref gofal wedi dweud bod gwasanaeth profi y Bwrdd Iechyd yn gyson ddibynadwy a bod canlyniadau'n dod i law'n gyflym. Roedd y staff yn cael eu profi bob pythefnos; mae rhai wedi ailddechrau'n wythnosol oherwydd y cynnydd mewn trosglwyddo cymunedol.

Roedd y sefyllfa'n heriol i ddechrau gan nad oedd yr Awdurdod Lleol yn gallu cael canlyniadau profion gweithwyr y Bwrdd Iechyd oherwydd problemau cyfrinachedd a llywodraethu.

Mae'n ymddangos bod y "profion Goleudy" yn fwy o her o safbwynt adnoddau, yn ogystal â chywirdeb a dibynadwyedd. Erbyn hyn rydym yn wynebu her profi torfol ac yn gweld nifer uwch o achosion; maent i gyd yn cael effaith ar y Cartrefi Gofal, o ran staffio.

Yn ddealladwy, mae cartrefi gofal yn bryderus ynghylch profi ymwelwyr â Chartrefi Gofal, yn enwedig nawr bod cynnydd yn y cyfraddau heintio.

Argymhellion

DIM

Gwasanaethau Plant/Iechyd Meddwl Ac Anableddau Dysgu

Er nad oedd y Gwasanaethau Plant na'r gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi'u cynnwys yn y cyfarfodydd craidd cychwynnol, a oedd yn canolbwyntio ar oedolion hŷn oherwydd y lefel uchel o risg i bobl hŷn, roeddent serch hynny yn dilyn yr un protocolau. Roedd 3 uned benodol yn y Gwasanaethau Plant ac roedd yr Unigolion Cyfrifol/Rheolwyr yn cynnal eu cyfarfodydd eu hunain gyda rheolwyr safle. Mae'r Gwasanaethau Plant yn rhan o'r Adran Addysg ond mae ganddi'r un gofynion rheoliadol o safbwynt gofal preswyl ag Oedolion.

Sicrhodd yr Uwch-reolwyr mai nhw oedd y cyswllt uniongyrchol â'u cartrefi gofal er mwyn gallu cynnig cymorth ac arweiniad. Adolygwyd anghenion gofal yr holl blant a oedd yn defnyddio'r cyfleusterau a threfnwyd cymorth. Roedd rhywfaint o bryder ble byddai'r gwasanaethau Preswyl i Blant wedi cael cymorth staffio pe bai angen oherwydd natur arbenigol y grŵp cleientiaid, sef plant ag anableddau dysgu cymhleth. Fodd bynnag, roedd proses uwchgyfeirio ar waith pe bai angen gwneud hynny.

Yn strategol, mynychodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gyfarfodydd strategol gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau oedolion a'r Cyfarwyddwr Statudol i sicrhau ymateb cynhwysol.

Bellach mae'r Gwasanaethau Plant bellach yn datblygu Polisi Gweithredol penodol ar gyfer y Gwasanaethau Preswyl i Blant.

O safbwynt Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu, gweithiodd Iechyd yn agos gyda'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod gwelyau ysbyty yn cael eu lleihau i gymryd pwysau oddi ar y sector aciwt. Roedd llawer iawn o waith rhagweithiol yn cael ei wneud i ddod o hyd i opsiynau lleoli addas; mae'r holl opsiynau Iechyd Meddwl a'r mwyafrif helaeth o opsiynau Anableddau Dysgu yn y sector preifat. Daethpwyd i gytundebau ariannu, a dangosodd hynny pa mor gyflym gall gwasanaethau weithredu pan fo angen.

Un maes risg a nodwyd oedd pe bai'n rhaid i unrhyw Gartref Gofal Anableddau Dysgu gau neu pe bai angen i bobl fynd i'r ysbyty. Byddai angen nyrsys Anableddau

Dysgu arbenigol i ofalu am yr achosion mwy cymhleth. Cydnabyddir bod y gwasanaethau'n sôn am niferoedd is ond anghenion sylweddol, ond barnwyd bod hwn yn faes y gellid datblygu cynlluniau wrth gefn sy'n benodol i'r sector.

Argymhellion

Sicrhau bod Gwasanaethau Plant/lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw gynllunio argyfwng yn y dyfodol ynghylch gofal preswyl

Mapio anghenion cymorth y gwasanaethau Plant/lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Bod y gwasanaethau plant yn datblygu Polisi Gweithredol penodol i'r Gwasanaethau Preswyl i Blant

Teuluoedd/Ffrindiau/Ymweliadau

Mae rhai cartrefi gofal wedi bod yn hynod arloesol a dyfeisgar o ran sut maent wedi trefnu ymweliadau ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi. Serch hynny, mae trefnu a chefnogi ymweliadau diogel yn parhau i fod yn her i'r rhan fwyaf o Gartrefi Gofal.

Roedd yn haws o dipyn yn yr haf wrth i rai allu codi pebyll mawr neu drefnu ymweliadau awyr agored. Mae'r gaeaf wedi gwneud pethau llawer mwy anodd a heriol. Mae rhai cartrefi wedi gallu creu mannau diogel mewn lolfeydd haul, ac eraill yn eu safleoedd Gofal Dydd sydd ar gau i ddefnyddwyr dydd. Mae rhai wedi llwyddo i ddefnyddio Skype/What's App yn fwy llwyddiannus nag eraill.

Cefnogwyd ymweliadau diwedd oes ar draws y sector gofal, gydag un perthynas yn gallu bod yn bresennol, gan wisgo'r PPE cywir. Os nad oedd teuluoedd wedi gallu bod yn bresennol, mae'r staff wedi rhoi sicrwydd iddynt na fu i'w hanwyliaid farw heb neb yno a bod aelod o staff gyda nhw.

Yr hyn sy'n amlwg yw bod pob cartref gofal yn gweld yr effaith negyddol mae colli cysylltiad â theulu a ffrindiau yn ei chael ar breswylwyr. Ni all y rhai sydd â nam gwybyddol ddeall y diffyg ymweliadau ac maent yn cael trafferth gyda chyfarfodydd rhithwir. Mae effaith profion cynyddol a staff yn profi'n bositif yn broblem wirioneddol mewn cartrefi gofal, wrth iddynt fynd o un cyfnod cau am 28 diwrnod i'r llall.

Argymhellion

Gweithio gydag Ymgynghorwyr Cenedlaethol/Rheoleiddwyr/Awdurdod Lleol ac lechyd i ystyried a datblygu canllawiau ar sut i hyrwyddo a chynnal ymweliadau diogel â phreswylwyr nad oes Covid arnynt pan fo staff a phreswylwyr eraill ar y safle wedi profi'n bositif. Ystyried sut mae helpu Cartrefi Gofal i ddatblygu mannau ymweld diogel a ffyrdd arloesol eraill o gadw mewn cysylltiad

+++++

Hoffwn ddiolch i'r holl staff a gymerodd ran yn y cyfweiliadau a phawb a gyfrannodd drwy gwblhau'r arolwg. Mae gwaith caled ac ymroddiad llwyr pawb i gydweithio yn ystod y pandemig hwn wedi creu argraff fawr arnaf. Yr hyn sydd wedi bod bwysicaf i bawb yw sicrhau diogelwch a llesiant y bobl maent yn eu gwasanaethu a gofal y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Diolch | Thank you

Carys James B.A.HONS; CQSW; Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (DipSW)

YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL/INDEPENDENT CONSULTANT